## Rhagair Arweinydd y Cyngor

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar gyrhaeddiad blwyddyn olaf Cynllun Tair Blynedd y Cyngor ac yn sicrhau ein bod fel Cyngor yn atebol i bobl Gwynedd am ein perfformiad a'n gweithgareddau. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflawni yn erbyn ei gynlluniau a'i dargedau ar gyfer 2010/11. Mae'n bwysig nodi mai adrodd ar welliannau trawsnewidiol y mae'r ddogfen hon, cynlluniau mawr y Cyngor ar gyfer trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd.



Dyfed Edwards
Arweinydd – Cyngor Gwynedd

Unwaith eto eleni, mae'r gwelliannau wedi eu cyflawni mewn cyd-destun ariannol heriol tu hwnt, ac ymddengys mai dyna fydd y sefyllfa am sawl blwyddyn eto. Er gwaethaf hynny, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i ymdrechu i wella gwasanaethau cyhoeddus, yn chwilio am ddulliau darparu dychmygus a newydd, gan gydweithio ar draws ffiniau daearyddol ac mewn partneriaeth ag eraill lle bo hynny o fantais i Gwynedd a'i thrigolion.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'm cyd-aelodau ac i staff y Cyngor am eu gwaith caled i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ar lefel uchel yn erbyn ein huchelgais.

## Rhagair y Prif Weithredwr

### Rhagair i'w ddarparu



Harry Thomas
Prif Weithredwr – Cyngor Gwynedd

# CYNLLUN GWELLA GWYNEDD 2011

## Adroddiad ar Lwyddiannau a Methiannau 2010/11

### Cynnwys


| Rhan | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| A | Cyflwyniad | 3 |
| B | Crynodeb o Lwyddiannau a Methiannau 2010/11 | 5 |
| Atodiad 1 | Cyrhaeddiad fesul Rhaglen Strategol 2010/11 | 8 |
| Atodiad 2 | Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2010/11 – Dangosyddion Allweddol | 37 |
| Atodiad 3 | Dangosyddion Statudol - Adroddiad ar Berfformiad Terfynol 2010/11 | 40 |

# A. CYFLWYNIAD

Mabwysiadwyd Cynllun Tair Blynedd ar gyfer Gwynedd am y cyfnod 2008/09 – 2010/11.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Tair Blynedd gwreiddiol, mae'n amlwg bod nifer o faterion wedi codi lle 'roedd yn rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt. Yn eu plith roedd:

- Y Dirwasgiad – Ers llunio'r cynllun gwreiddiol, mae cyflwr economaidd y byd wedi dirywio'n sylweddol. Golygodd hyn fod yn rhaid edrych o'r newydd ar y camau yr oedd y Cyngor yn ymrwymo iddynt ym maes yr economi a hefyd yr her o bwysau ariannol pellach ar y Cyngor fel sefydliad.

- Yr Agenda Arbedion – Yma eto, mae'r sefyllfa wedi difrifoli'n sylweddol. Erbyn hyn, mae'r Cyngor yn rhagweld gorfod wynebu arbedion sylweddol dros y tair blynedd nesaf. Roedd hyn yn golygu uchafu'n ymdrechion i ganfod arbedion o fewn fframwaith ein blaenoriaethau ac edrych yn feirniadol ar ein gallu i gyflawni llawer o'n hymrwymiadau blaenorol yn erbyn y cefndir hwn.

Cyhoeddwyd dau adolygiad o'r cynllun yn ystod y cyfnod tair blynedd, ac mae'r Ail Adolygiad, ar gyfer y cyfnod 2010/11 yn adlewyrchu'r ddau fater uchod ynghyd â ffactorau allweddol a nodwyd gan staff, aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd.

Yn ystod 2010/11 symudwyd hefyd at wella ffocws ar ganlyniadau'r gweithgareddau a gynlluniwyd, gan geisio symud tuag at bwyslais ar effaith y cynlluniau yn hytrach na'r camau gweithredu. I hwyluso'r newid ac i gynorthwyo'r Cyngor i drawsnewid, symudwyd at becynnu cynlluniau o fewn rhaglenni mwy integredig.

Yn dilyn yr Ail Adolygiad felly, mae'r Cynllun Tair Blynedd wedi newid i gynnwys yr amcanion gwella canlynol. Nodir yr amcanion gwella hyn mewn 6 maes rhaglen fel a ganlyn:

- Trawsffurfio'r Cyngor
  Bod yn gorff sydd yn rheoli newid, sy'n cyflawni ei botensial drwy wasanaethau arloesol ac sy'n sicrhau bod dinasyddion wrth galon popeth y mae'n ei wneud.

- Adfywio a'r Economi
  Meithrin a datblygu cymuned sirol sydd yn gynaliadwy gan gynyddu ffyniant cymharol trwy wella'r sylfaen sgiliau, a chreu cyflogaeth gynaliadwy.

- Amgylchedd ac Isadeiledd
  Hybu amgylchedd sy'n ddiogel, gyda thai addas a chysylltiadau hwylus a defnyddiol i Wynedd a'i thrigolion yn wyneb newidiadau yn lleol ac yn y byd o'n cwmpas

- Plant a Phobl Ifanc
  Cefnogi a datblygu potensial pob plentyn a pherson ifanc o fewn y Sir gan sicrhau ymyrraeth yn gynnar a chefnogaeth ataliol yn Ôl yr angen.

- Gwerth am Arian
  Sicrhau gwasanaethau effeithiol ac ymatebol gan wneud y gorau o holl adnoddau'r Cyngor er mwyn cyfrannu'n llawn tuag at wella Gwynedd.

➢ Pobl Bregus
Sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl a chymunedau ar draws y Sir gan sicrhau bod gan unigolion mwyaf bregus y cyfleon i fyw bywyd llawn mewn sefyllfa o'u dewis.

Yn ychwanegol, lluniwyd nifer fechan o brosiectau strategol er mwyn sicrhau datblygiadau mewn meysydd allweddol eraill ychwanegol i'r uchod ar yr un pryd.

Y mae'r Cynllun yn ddolen gyswllt bwysig rhwng cynnwys Strategaeth Gymunedol Gwynedd a chynlluniau busnes y Cyngor ar lefelau amrywiol, o'i Gynlluniau Busnes Adran i'w ddangosyddion a'i gynlluniau ar gyfer gwella ar lefel unedau busnes.

## Y cyd-destun Statudol

Cyfeirir at y Cynllun Tair Blynedd fel Rhan 1 o'r Cynllun Gwella, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Raglen Gwella Cymru. Yma, cyflwynir ail ran y Cynllun. Pwrpas yr ail ran yw cynnig trosolwg o berfformiad a chyraeddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sef perfformiad yn ystod 2010/11.

## Y Cyd-destun Strategol yng Ngwynedd

Mae'r Cyngor yn gweithredu yng nghyd-destun anghenion a blaenoriaethau pobl a chymunedau'r Sir, ac am wneud yr hyn a fedr er lles pobl Gwynedd a hynny mewn partneriaeth. Golyga hyn weithio fel rhan o "Gwynedd ar y Cyd", partneriaeth y Strategaeth Gymunedol, a chydweithio â'r cyhoedd a'n partneriaid o bob sector. Mae'r Strategaeth Gymunedol ar gyfer 2008/12 yn gosod gweledigaeth tymor hir ar gyfer y Sir. Mae'r weledigaeth yn nodi "erbyn 2010, ein gweledigaeth yw y bydd Gwynedd wedi ymgymryd â'r her a'r cyfleoedd mewn byd sy'n newid i fod yn gymuned fwy bywiog, llewyrchus, agored a chydlynol sy'n ymfalchïo ac yn arwyddo ei asedau diwylliannol a naturiol unigryw ac sy'n cyfrannu'n bositif tuag at fyd mwy cynaliadwy." Er mwyn cwrdd â'r her o wireddu'r weledigaeth honno, mae saith maes ymyrraeth wedi eu hadnabod yn y Strategaeth Gymunedol ar y cyd â'n partneriaid ac mae'r blaenoriaethau sydd yn y rhaglenni o fewn y Cynllun Tair Blynedd yn ymateb i'r meysydd ymyrraeth hynny.

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y cynnwys, cysylltwch â'r Adran Strategol a Gwella, ar 01286 679440 (e-bost: ymholiadau@gwynedd.gov.uk).

Am gopi o'r ddogfen mewn iaith arall neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni drwy'r manylion uchod.

# B. CRYNODEB O LWYDDIANNAU A METHIANNAU 2010/11

Yn ystod 2010/11 gwelwyd cynnydd yn erbyn yr Amcanion gwella, ond mae rhai meysydd sy'n parhau i fod angen eu datblygu ymhellach.

Ymysg y llwyddiannau bu i'r Cyngor sefydlu cronfa arloesol i gynnig benthyciadau i fusnesau lleol. Ym maes ieuenctid a phlant buddsoddwyd mewn darpariaeth ieuenctid newydd fel Bws Ieuenctid Gwynedd, a rhoddwyd cefnogaeth i deuluoedd mewn canolfannau megis Plas Pawb yng Nghaernarfon a Chaban Bach ym Mlaenau Ffestiniog.

Mae darpariaeth cyflenwad o dai addas yn bwysig er mwyn galluogi pobl i aros o fewn eu cymunedau, a thra llwyddwyd i ddarparu 67 o dai fforddiadwy, ni lwyddwyd i ddarparu cymaint â'r disgwyl o fynediad i brynwyr tro cyntaf at y farchnad dai oherwydd natur y farchnad.

Fel y nodir yn y tabl isod, tra llwyddodd 66% o welliannau i gwrdd â deilliant y flwyddyn, a 21% i wneud cynnydd derbyniol tuag at ddeilliant y flwyddyn, roedd 12% arall lle na lwyddwyd i gwblhau yn unol â'r disgwyl. Mae rhai o'r cynlluniau hynny yn uchelgeisiol, megis y prosiect i godi tai gofal ychwanegol. Mae angen safle addas a phecyn ariannol cadarn i wireddu hyn. Mae adeiladwyr ar y safle yn Y Bala, ond cymysg yw'r sefyllfa mewn ardaloedd eraill.

Adroddir ar lwyddiannau a methiannau 2010/11 fesul rhaglen yn **Atodiad 1**. Mae'r tabl isod yn cynnig trosolwg o'r cyrhaeddiad ar draws y Cyngor ar gyfer 2010/11.

| Rhaglen Strategol | Nifer o Welliannau (deilliant) | Gwelliannau sydd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn **Gwyrdd** | Gwelliannau sydd wedi neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn **Ambr** | Gwelliannau nad oedd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2011 **Coch** | Gwelliannau wedi eu cau |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsffurfio'r Cyngor | 21 | 14 | 4 | 3 | - |
| Adfywio a'r Economi | 19 | 15 | 4 | - | - |
| Amgylchedd ac Isadeiledd | 17 | 11 | 2 | 3 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 14 | 10 | 2 | 2 | - |
| Gwerth am Arian | 7 | 4 | 1 | 2 | - |
| Pobl Bregus | 11 | 4 | 6 | 1 | - |
| Prosiectau Strategol | 10 | 6 | 2 | 2 | - |
| **Cyfanswm** | **99** | **64** | **21** | **13** | **1** |

Y prif gasgliadau yw:

- Bod 86% wedi cwrdd â, neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn erbyn diwedd 2010/11 sydd yn cymharu â 81% yn 2009/10
- Bod 13% heb gwrdd â deilliant y flwyddyn
- Bod 1% wedi cau.

# Dangosyddion Allweddol 2010/11

Ym mlwyddyn olaf y Cynllun Tair Blynedd ar gyfer y cyfnod 2008/09 – 2010/11 cyhoeddwyd cyfres o ddangosyddion perfformiad a thargedau penodol er mwyn ceisio mesur sut yr oedd y Cyngor yn perfformio mewn meysydd y mae'n ystyried yn rhai allweddol. Roedd y set a ddatblygwyd yn ceisio mesur:

- cynnydd mewn rhai o'r meysydd datblygol, ac sy'n berthnasol i rai o'r rhaglenni, neu

- yn mesur perfformiad meysydd allweddol yng ngweddill gwaith y cyngor.

Gweler isod ddadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion allweddol ar gyfer 2010/11. Yn gyffredinol, nodir fod llithriad ym mherfformiad y Cyngor, gyda'r darlun cymysg yn golygu fod rhai dangosyddion yn destun pryder tra bod eraill yn rhagori ar y targed. Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod y llithriadau yma mewn perfformiad, ac mae gwaith ar y gweill trwy'r Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio i geisio newid y tueddiad a gwella perfformiad mewn rhai meysydd penodol.

| | Nifer dangosyddion | Dangosyddion wedi cwrdd â tharged cronnus y flwyddyn<br>**Gwyrdd** | Dangosyddion wedi perfformio o fewn goddefiant â tharged cronnus y flwyddyn<br>**Ambr** | Dangosyddion sydd heb gwrdd â tharged cronnus y flwyddyn<br>**Coch** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **36** | **53% (19)** | **14% (5)** | **33% (12)** |

Mae'n bwysig i ni nodi yma fod y gyfres o ddangosyddion wedi ei haddasu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac felly nid ydym yn cymharu cyflawniad ar yr un dangosyddion yn union.

Y prif gasgliadau yw:

- Bod 67% o'r dangosyddion wedi cwrdd â'u targedau neu o fewn goddefiant erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd bychan o'i gymharu â 2009/10 ble roedd y ffigwr yn 64%
- Bod 33% wedi methu cwrdd â'u targedau cronnus erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn cymharu â 36% yn 2009/10.

Yn ogystal, mae'n bwysig ystyried faint o'r dangosyddion sydd wedi gwella perfformiad ers y flwyddyn flaenorol. Gweler dadansoddiad llawn yn **Atodiad 2**, lle nodir gyda ↑ y dangosyddion sydd wedi gwella eu perfformiad o'r flwyddyn flaenorol, dangosyddion sydd wedi cadw perfformiad yn gyson wedi eu nodi gyda'r symbol ⇔, a dangosyddion lle mae perfformiad wedi dirywio ers y flwyddyn flaenorol wedi eu nodi gyda ↓.

| | ↑ | ⇔ | ↓ | - (methu cymharu) | Is-gyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **49% (16)** | **18% (6)** | **33% (11)** | **3** | **36** |

Gellir casglu felly bod perfformiad 67% o'r dangosyddion (lle mae'n bosib eu cymharu) wedi gwella neu aros yn gyson rhwng 2009/10 a 2010/11.

## Dangosyddion Statudol 2010/11

Mae Cyngor Gwynedd yn pwysleisio mai'r dangosyddion allweddol a gesglir yw'r dangosyddion pwysig ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor gasglu ac adrodd ar ddangosyddion statudol sydd wedi eu hadnabod gan Lywodraeth y Cynulliad. Gellir gweld tabl yn cyflwyno'r wybodaeth yma yn **Atodiad 3**.

# ATODIAD 1 - Cyrhaeddiad fesul Rhaglen Strategol

**Rhaglen Strategol – Trawsffurfio'r Cyngor**

**Cyd-destun Strategol**

Un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Gwasanaethau Cyhoeddus Arloesol." Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus arloesol, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac sy'n lleihau eithrio cymdeithasol, hyn oll mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol. Mae hyn yng nghyd-destun:

- Disgwyliadau uchel ynglyn â safon gwasanaethau cyhoeddus
- Adroddiadau diweddar gan Lywodraeth y Cynulliad yn amlygu'r angen am effeithlonrwydd a threfnu gwasanaethau fwyfwy o gwmpas y
- cwsmer
- Cymunedau'n newid yn sydyn ac yn dod yn fwy amrywiol
- Mae'n gynyddol anodd rheoli'r galw am fuddsoddiad pellach mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn dymuno bod yn gorff sydd yn newid er mwyn cyflawni ei botensial ac yn Gyngor sydd yn sicrhau bod anghenion dinasyddion wrth galon popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Dros oes y Cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael a'r prif faterion isod er mwyn ceisio:

- Gwrando ar lais y cyhoedd ac ymgysylltu'n well
- Rheoli newidiadau yn ofalus ac yn fwriadus
- Cynnig blaenoriaethau clir
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys prosesau busnes llyfn
- Datblygu a grymuso arweinwyr a staff i'w galluogi i weithio'n effeithiol
- Gwella cyd-weithio mewnol ac allanol er mwyn sicrhau'r defnydd orau o adnoddau cyhoeddus.

**Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)**

Heb ymyrraeth yn y maes hwn, ni fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i ofynion newydd. Mae peryg na fyddwn wedi gallu adnabod a chynllunio newidiadau sydd eu hangen ac yna eu rheoli yn gadarn i ddod i ganlyniad. Byddwn yn ceisio cynnal gwasanaethau mewn ffurf draddodiadol a hanesyddol. Mae perygl na fyddwn wedi rhyddhau potensial staff ac arweinwyr i gynnal y newidiadau sydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Nod gwaith y Rhaglen ar gyfer 2008/11 oedd datblygu Cyngor arloesol sydd yn cyflawni ei botensial, ble mae'r gwasanaethau yn canolbwyntio ar anghenion y cyhoedd, gan ddatblygu'r gweithlu a'r aelodau i gynorthwyo i gyflawni'r nod hyn. Bu'r Cyngor yn llwyddiannus i gyflawni rhan helaeth o weithgareddau a chanlyniadau'r Rhaglen. Ond yn anffodus ni welwyd y cynnydd disgwyliedig ym mhob gweithgaredd, gydag amserlen cwblhau'r gweithgaredd yn llithro yn sgil rhesymau amrywiol. Dylid nodi bydd gwaith ar y gweithgareddau hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn 2011/12, gyda rhai elfennau yn derbyn sylw manylach yng Nghynllun Tair Blynedd 2011/14.

Adnabuwyd yr angen i newid diwylliant a datblygu'r gweithlu i gynorthwyo gyda'r gwaith o drawsnewid y Cyngor. Un llwyddiant amlwg oedd y seremoni wobrwyo cyntaf "Cyngor ar ei Orau", ble cydnabuwyd nifer o staff am eu gwaith caled i sicrhau'r gorau ar gyfer trigolion Gwynedd. Yn ogystal, sefydlwyd rhaglen hyfforddi "rheoli newid yn llwyddiannus" ar y cyd gyda chynghorau'r Gogledd, gan dargedu holl benaethiaid i fynychu'r hyfforddiant yn y lle cyntaf ac yna ymestyn yr hyfforddiant i'r uwch reolwyr.

Mae gwella trefniadau gofal cwsmer yn bwysig i'r Cyngor, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cwrdd gydag anghenion y cwsmer. I'r perwyl hynny cynhaliwyd adolygiad cymheiriaid ar drefniadau gofal cwsmer ar draws y Cyngor, er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau gan roi cynllun ar waith i wella'r trefniadau. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Cynllunio bellach yn cael ei ddarparu o'r ganolfan gyswllt a'r wefan, sydd wedi hwyluso cyswllt y cwsmer gyda'r Gwasanaeth.

Roeddem yn ymwybodol o'r angen i wella ein trefniadau ymgysylltu a gwrando ar lais y cyhoedd, a chwblhawyd rhaglen waith er mwyn cryfhau'r trefniadau, a fydd yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer ymgysylltu i'r dyfodol. Ond ni lwyddwyd i wireddu dyhead y Cyngor o gynnal panel trigolion i dderbyn barn y cyhoedd ynghylch y prif faterion. Fodd bynnag, mae'r gwaith paratoadol wedi ei gwblhau sy'n galluogi'r Cyngor i gynnal cyfarfod cyntaf o'r paneli yn ystod 2011/12.

Roeddem wedi rhagweld y byddem wedi treialu dulliau trawsnewid busnes a chytuno ar raglen o drawsnewid ar draws y Cyngor. Credir fod creu rhaglen trawsnewid yn allweddol i waith y Cyngor; er sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch anghenion y defnyddwyr ac yn lleihau costau. Yn anffodus bu llithriad yn amserlen cwblhau'r 2 gynllun peilot yn sgil yr angen i sicrhau fod canlyniad y gwaith yn gadarn.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1. | **Trawsnewid Busnes** | Byddwn wedi treialu dau ddull ar gyfer trawsnewid busnes a chytuno rhaglen o drawsnewid ehangach o fewn Cyngor Gwynedd. | Ambr | Cychwynnwyd peilot mewn dau faes gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ond bu llithriad yn amserlen cwblhau. Gwaith yn parhau i Gynllun Tair Blynedd 2011-14. |
| 2. | **Newid Diwylliant** | Byddwn wedi cyflwyno Fframwaith Cymell a Mentora | Gwyrdd | Datblygwyd rhaglen cymhelliant ar y cyd gyda chynghorau Gogledd Cymru, sydd gyda chyswllt â rhaglen 'rheoli newid' y Cyngor. |
| | | Gweithredu mentrau ar gyfer dathlu llwyddiant o fewn a thu allan i'r Cyngor | Gwyrdd | Cynhaliwyd seremoni wobrwyo "Cyngor ar ei Orau" ym mis Mawrth 2011. |
| | | Byddwn wedi hyrwyddo ymddygiad yn y staff sy'n cyd-fynd â'r gwerthoedd newydd | Gwyrdd | Cynhaliwyd sesiynau gyda thimau adran er mwyn codi ymwybyddiaeth o werthoedd newydd y Cyngor. |
| | | Byddwn wedi creu amgylchedd addas er mwyn hwyluso arloesi, mentro, cymryd risgiau ystyrlon a dysgu parhaus | Coch | Ni wnaethpwyd y cynnydd disgwyliedig, bydd elfennau o'r gwaith yn derbyn sylw yng Nghynllun Tair Blynedd 2011-14. |
| | | Byddwn wedi gwerthuso cynnydd y Strategaeth Gyfathrebu mewnol. | Gwyrdd | Bydd canlyniad yr adolygiad o drefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor yn gosod cyfeiriad ar gyfer gwaith y Cynllun Tair Blynedd 2011-14. |
| 3. | **Rheoli Newid** | Byddwn wedi adolygu ein trefniadau rheoli newid er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y Cyngor ac wedi canfod capasiti ar gyfer cefnogi'r newid. | Gwyrdd | Ffocws clir wedi ei roi ar drefniadau rheoli newid a sicrhau datblygu capasiti rheoli newid er mwyn sicrhau fod prosiectau trawsnewid y Cyngor yn llwyddo. Bydd gwaith yn parhau i Gynllun Tair Blynedd 2011-14. |
| 4. | **Cyfranogaeth y Gymuned** | Bydd rhaglen waith ar gyfer ymgysylltu wedi ei chytuno a chychwyn gweithredu | Gwyrdd | Rhaglen waith y prosiect wedi ei gwblhau a derbyniwyd cefnogaeth y Bwrdd Rhaglen i gyfeiriad y gwaith ar gyfer cyfnod 2011-14. |
| | | Byddwn yn ymgynghori ar ddulliau eraill yr hoffai ein dinasyddion weld o roddi llais i'n cymunedau | Gwyrdd | O ran y paneli trigolion, mae gwaith wedi ei gwblhau er mwyn derbyn enwebiadau ar gyfer creu'r panel a bydd canllawiau'n cael eu creu ar gyfer defnydd o'r panel. Bydd gwaith y panel trigolion yn parhau i Gynllun Tair Blynedd 2011-14. |
| | | Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu ar ganlyniadau'r Arolwg Barn. | Ambr | Cynhaliwyd yr Arolwg Barn gyda'r canlyniadau wedi dylanwadu ar gynlluniau strategol a'r Cynllun Tair Blynedd ond mae llawer o waith i'w wneud eto i wella. |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd) Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 5. | **Perfformiad** | Byddwn wedi gweithredu ar raglen waith i gyfarfod â gofynion Rhaglen Wella Cymru, Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru | Gwyrdd | Trefniadau cynllunio busnes wedi eu haddasu er mwyn sicrhau gwell cyswllt rhwng gweithgareddau'r Cyngor a'r effaith ar y defnyddwyr. |
| | | Byddwn wedi ymestyn defnydd System Rheoli Perfformiad Ffynnon ar draws holl adrannau'r Cyngor. | Gwyrdd | System Rheoli Perfformiad electroneg Ffynnon, yn cael ei defnyddio yn gyson gan bob adran. |
| 6. | **Datblygu Arweinyddiaeth Gwleidyddol** | Parhau gyda'r Strategaeth Hyfforddi gan sicrhau cyfweliadau datblygu personol a chynllun datblygu personol gyda phob aelod o'r Bwrdd | Ambr | Cwblhawyd gwaith paratoadol ar gyfer cynnal y cyfweliadau a chreu cynllun datblygu personol. Fodd bynnag, penderfynwyd byddai'n gynamserol cynnal y cyfweliadau o gysidro bydd newid i aelodaeth y Bwrdd yn dilyn etholiadau ym mis Mai 2012. |
| | | Byddwn wedi mabwysiadu disgrifiad rôl a chymwyseddau ar gyfer Cadeiryddion ac Aelodau Craffu. | Gwyrdd | Disgrifiadau rôl a chymwyseddau wedi eu cyd-ddatblygu gyda'r aelodau ac wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn. |
| 7. | **Hunan Asesiad o'r Cyngor** | Byddwn wedi cwblhau Hunan Asesiad o drefniadau arweinyddiaeth, ymgysylltu a llywodraethu'r Cyngor a llunio Cynllun Gweithredu Gwelliant. | Gwyrdd | Canlyniadau'r Hunan Asesiad wedi ei ddefnyddio er mwyn adnabod lle mae'r Cyngor angen sicrhau newid, a'r rhaglen waith yn gyfrifoldeb y Bwrdd Trawsffurfio ar gyfer 2011-12. |
| 8. | **Llywodraethu Corfforaethol** | Byddwn wedi cyflwyno fframwaith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag egwyddorion llywodraethu da. | Gwyrdd | Fframwaith llywodraethu corfforaethol wedi ei fabwysiadu gan y Bwrdd. |
| 9. | **Gofal Cwsmer** | Adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau a'r cyfleon ar gyfer gwella gofal cwsmer ar draws y Cyngor | Gwyrdd | Canlyniad yr adolygiad cymheiriaid ar drefniadau gofal cwsmer wedi ei ddefnyddio er mwyn adnabod gwendidau gan lunio rhaglen waith i wella trefniadau. |
| | | Bydd Gwasanaethau Cynllunio yn cael eu darparu o Galw Gwynedd a'r wefan | Gwyrdd | Cyswllt y cwsmer gyda'r Gwasanaeth Cynllunio bellach yn cael ei ddarparu drwy'r ganolfan gyswllt a'r wefan. |
| | | Bydd y prosesau ar gyfer darparu gwasanaethau trwyddedu, llygredd a difa pla a Safonau Masnach wedi eu hail ddylunio a'r gwaith technegol wedi ei gwblhau yn barod i'w cyflwyno i Galw Gwynedd | Ambr | Llwyddwyd i gytuno ar y prosesau ar gyfer darparu'r gwasanaethau, ond bu llithriad gydag amserlen cwblhau'r gwaith technegol. |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn ail-drefnu cynnwys y wefan i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr. | Coch | Penderfyniad i oedi gan fod trafodaeth ar gydweithio rhanbarthol. |
| **10.** | **Prosiect Cydweithio** | Byddwn wedi adolygu'r trefniadau cydweithio yn ardal Penllyn a'r Bala ac wedi datblygu model cynaliadwy y gellir ei ymestyn i ardaloedd eraill yng Ngwynedd. | Coch | Ni wnaed y cynnydd disgwyliedig, yn bennaf oherwydd dymuniad i dderbyn barn y bartneriaeth ynghylch ymestyn y cynllun i dderbyn cyfrifoldebau am swyddogaethau ychwanegol. Bydd y gwaith yn derbyn sylw pellach yng Nghynllun Tair Blynedd 2011-14. |

**Rhaglen Strategol – Adfywio a'r Economi**

**Cyd-destun Strategol**

Un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Economi a Sgiliau" Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni gynyddu ffyniant cymharol trwy wella'r sylfaen sgiliau, cynyddu mentergarwch a chreu cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd uchel yn wyneb bygythiadau a chyfleoedd o fewn yr economi byd-eang. Mae hyn yng nghyd-destun:

- Cyfartaledd enillion Gwynedd ymysg yr isaf yng Nghymru
- Tŵf wedi tueddu i ddigwydd mewn sectorau o werth ariannol cymharol isel
- Diffyg mewn sectorau twf / gwerth ariannol uwch, fel yr economi wybodaeth neu rhai gwasanaethau, yn gwneud yr economi leol yn fwy bregus
- Dibyniaeth ar nifer fach o sectorau am gyflogaeth yn yr ardal yn creu economi fregus
- Canran arwyddocaol o gyflogwyr Cymru yn adrodd bod diffygion sgiliau arwyddocaol ymysg eu gweithwyr
- Perifferaledd yr ardal a'i bellter o farchnadoedd mawr yn cyfrannu at danberfformiad cymharol yn yr economi

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaliadwy yn amcan o'r pwys mwyaf. Rhaid i Wynedd fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol am y blynyddoedd i ddod ac i wneud hyn mae angen iddo adeiladu ar ei gryfderau ac ymateb i rwystrau sydd yn wynebu ei phoblogaeth ac yn atal ffyniant.

Dymuniad y Cyngor oedd meithrin a datblygu cymuned sirol sy'n gynaliadwy, gan fynd i'r afael a'r prif faterion a nodir isod er mwyn ceisio:-

- Hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir
- Darparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur
- Cynnig tegwch a chyfleon i gymunedau bregus
- Ceisio sefydlu'r ffordd orau i dorri'r cylch amddifadedd
- Targedu a datblygu sectorau o bwys yng Ngwynedd gan adeiladu ar ein cryfderau.

**Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)**

Heb i'r Cyngor ymyrryd yn y maes hwn, mae perygl y gwelwn wanhau mewn rhai sectorau, cymunedau anghytbwys a gwan, diboblogi ac economi sydd yn fregus ac yn anghynaladwy; yn arbennig mewn rhai rhannau o'r Sir.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Y prif faterion nodir uchod sy'n rhoi'r cyd-destun i'r ymdrechion yn 2008-11, ac maent yn cynrychioli nifer helaeth o weithgareddau o fewn y maes adfywio a'r economi. Roedd y rhaglen yn un uchelgeisiol ond bu cynnydd da. Fodd bynnag, yn ystod oes y Cynllun cafwyd y dirwasgiad economaidd gwaethaf ers degawdau lawer, a daeth rheidrwydd i wyro sylw'r rhaglen er mwyn ymateb i'r bygythiad a datblygu atebion lleol i gefnogi busnesau a chymunedau'r sir.

Yn 2010/11 fel rhan o'r ymateb hwnnw llwyddwyd i sefydlu cronfa arloesol i gynnig benthyciadau i fusnesau lleol, ac mae'r gronfa bellach yn weithredol. Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn hefyd o gyfraniad cytundebau sector gyhoeddus i'r economi a rhoddwyd sylw i'r maes caffael. Er na lwyddwyd i gyflawni un o'r gweithgareddau perthnasol o fewn cyfnod y Cynllun Tair Blynedd, manteisiodd cwmnïau lleol mewn sectorau penodol ar gefnogaeth gyson gydol y flwyddyn i'w galluogi i gystadlu am gytundebau. Gosodwyd sylfaen a bydd y sylw i'r maes hwn yn dwysau yn y cyfnod i ddod. O ran sefydlu a datblygu sectorau gwerth uchel yn y sir cymerwyd camau llwyddiannus gyda'n partneriaid i osod y seiliau ar gyfer prosiectau penodol yn y sector feddygol, y sector ynni, a'r sector adeiladu a bydd y sylw ar y sectorau hyn yn parhau.

Mae'r Cyngor wedi adnabod darpariaeth isadeiledd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fel arf allweddol wrth ymateb i sefyllfa ymylol y sir o fewn economi byd-eang, ac fel arf ar gyfer twf yr economi ac i gyflwyno gwasanaethau i gymunedau'r sir. Cymerwyd camau breision yn ystod y flwyddyn gan lunio a sefydlu ein rhaglen ar gyfer ehangu'r isadeiledd a'r defnydd o fandeang. Bydd y maes hwn yn un o flaenoriaeth o fewn y Cynllun Tair Blynedd newydd.

Rhoddwyd sylw pellach i fater perifferaledd a'r angen i hyrwyddo datblygiadau economaidd ar draws y sir trwy adnabod yr heriau sy'n wynebu Meirionnydd, gan gwblhau Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd a chymryd y camau cadarnhaol cyntaf o ran ei weithredu.

Mae darparu cyfleon i gysylltu pobl ifanc 18-24 oed gyda'r byd gwaith yn fater allweddol i'r Cyngor, a chymerwyd camau pwysig tuag at hynny trwy gydweithio â'n partneriaid i sefydlu clwstwr o gynlluniau yn rhoi amrediad o brofiadau gwaith, yn ogystal â chyfleon gwaith cyflogedig, i bobl ifanc di-waith Gwynedd. Maes sy'n hawlio sylw tymor hir ydi hwn a bydd y gweithredu yn parhau dros y cyfnod i ddod, gan hefyd gychwyn gweithredu rhaglen benodol ar gyfer y rhai ddim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant - rhaglen nad oeddem yn medru ei chyflwyno yn ystod y flwyddyn oherwydd oediad gyda phenderfyniad allanol y cais cyllid Ewropeaidd.

Wrth roi sylw i'r gweithgareddau torri'r cylch amddifadedd edrychodd y Cyngor ar ei drefniadau mewnol ei hun, ac er nad ydym eto wedi cyrraedd pen ein taith rhoddwyd trefn mewn lle fydd yn caniatáu sylw ar y lefel uchaf i'r maes hwn dros y tair blynedd nesaf.

Mewn cyfnod tu hwnt o heriol, ac mewn hinsawdd o newid parhaus, bu cynnydd da yn y gwaith ond mae'n rhy gynnar eto i adnabod yr ardrawiad ar yr economi, sectorau cyflogaeth, busnesau a chymunedau Gwynedd.

Parhau fydd y gwaith trwy'r Cynllun Tair Blynedd nesaf ar gyfer 2011/14.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 11. | Ymateb i'r dirwasgiad | Ar sail ymchwil pellach, dod i benderfyniad ar sefydlu cronfa fuddsoddiad newydd i Wynedd er mwyn gwella mynediad busnesau i gyllid i fuddsoddi | Gwyrdd | Bwrdd y Cyngor (23/09/10) wedi cymeradwyo sefydlu Cronfa Fenthyciadau mewnol ar gyfer gwella mynediad busnesau lleol i gyllid er mwyn buddsoddi. Y gronfa yn weithredol ers 01/04/2011. |
| | | Bydd mesurau ar waith i gefnogi'r economi i gyfarch unrhyw leihad yn y sector gyhoeddus. | Gwyrdd | Wedi eu cyflawni yn unol â'r cynllun prosiect. |
| 12. | Targedu Sectorau | Cydweithio â Phrifysgol Bangor a Chanolfan Betsi Cadwaladr er mwyn paratoi cynlluniau i sefydlu Campws Meddygol a Thechnoleg ym Mangor fyddai'n sbarduno twf clystyrau o fusnesau yn y maes iechyd a thechnoleg | Gwyrdd | Cynigion bras i sefydlu Campws Meddygol a Thechnoleg wedi eu datblygu gan y Brifysgol. |
| | | Cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn cytuno ar raglen i uchafu'r budd i economi'r Gogledd Orllewin drwy ddatblygiad newydd Wylfa B a'r broses ddatgomisiynu | Ambr | Rhaglen Ynys Ynni wedi ei lansio ac yn weithredol. |
| | | Byddwn wedi cefnogi busnesau yn y sector adeiladu i gystadlu am gytundebau yn y rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru | Gwyrdd | Trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r sefydliadau perthnasol a digwyddiad penodol (Cwrdd â'r Prynwr) wedi ei gynnal ar gyfer adeiladwyr lleol mewn perthynas â chontractau Cartrefi Cymunedol Gwynedd.<br>Digwyddiadau 'Sut i Dendro' wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. |
| | | Byddwn wedi lobïo a chydweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i fuddsoddi yn yr isadeiledd technoleg gwybodaeth fyddi'n galluogi busnesau bach gwerth uchel leoli ar draws Gwynedd. | Gwyrdd | Trafodaethau yn cael eu cynnal gyda darparwyr masnachol i annog ymestyn eu darpariaeth. Cyfraniad i raglen waith band eang genhedlaeth nesaf Llywodraeth Cymru yn cael ei baratoi. Ymgyrch hyrwyddo Cynllun Cymorth band eang Llywodraeth Cymru wedi ei gynnal. |
| 13. | Datblygu Digwyddiadau Mawr | Uchafu'r budd i Wynedd yn sgîl digwyddiadau mawr megis Digwyddiad y Faenol a'r Big Weekend | Gwyrdd | Digwyddiad y Big Weekend wedi dod a budd sylweddol i'r ardal amcangyfrifir oddeutu £3.5 miliwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bu i 9.5 miliwn wrando a 1.8 miliwn wylio'r digwyddiad ar y teledu. Bu i 686,000 ymweld â gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr. |
| | | Parhau i ymgyrchu i ddenu digwyddiadau mawr i'r Sir. | Gwyrdd | Y maes bellach wedi i'w adnabod fel prosiect yn y Cynllun Tair Blynedd "Yma mae pethau yn digwydd" |
| **14.** | **Targedu Rhaglenni Ariannol Allanol** | Byddwn yn rhagweithiol er mwyn manteisio i'r eithaf i ddenu adnoddau ariannol i'r Sir drwy raglenni fel Cydgyfeiriant a chronfeydd y Cynulliad. | Gwyrdd | Wedi eu cyflawni yn unol â'r cynllun prosiect. |
| **15.** | **Caffael** | Byddwn wedi targedu o leiaf 2 o brif gontractau er mwyn sicrhau ystyriaeth gytbwys a phriodol o faterion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, Cydraddoldeb ac Iaith wrth eu paratoi a'u dyfarnu drwy ddefnyddio'r Polisi Caffael Cynaliadwy. | Ambr | Mae ansicrwydd a oedd y gwelliant yn realistig o fewn yr amserlen wreiddiol ac a oedd capasiti ar gael yn caniatáu cyflawni ar y gwelliant hwn. Mae'r gwaith yn cael sylw penodol yn 2011/12. |
| | | Gwella'r technegau cyfathrebu gyda'r sector fusnes er mwyn gallu tendro am waith yn lleol. | Gwyrdd | Cynhaliwyd sesiwn cwrdd â'r prynwr fis Chwefror 2011. |
| **16.** | **Cynllun Cyflogaeth** | Bydd dogfen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd mewn lle. | Gwyrdd | Mae'r ddogfen i ymateb i anghenion economi Meirionnydd wedi ei llunio a'i herio. |
| | | Byddwn yn rhagweithiol wrth dargedu adnoddau i gyflawni prosiectau blaenoriaeth o fewn y Cynllun Cyflogaeth. | Gwyrdd | Wedi eu cyflawni yn unol â'r cynllun prosiect. |
| **17.** | **Pobl Ifanc 18-24 Di-waith** | Datblygu a gweithredu rhaglen o brosiectau i gynnig profiadau gwaith i unigolion di-waith gan roi sylw arbennig i dargedu pobl ifanc 18-24 oed. | Gwyrdd | Darparwyd cyfleon profiad gwaith a gwaith cyflogedig i unigolion di-waith drwy sefydlu cynlluniau Future Jobs Fund, Y Porth Ymgysylltu, Y Farchnad Lafur Drosiannol, GENESIS a Taith i Waith. |
| **18.** | **Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn** | Gweithredu cyfres o raglenni i dargedu grwpiau sydd ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEETS) gan roi sylw arbennig i bobl ifanc | Ambr | Mae penderfyniadau ar gais a gyflwynwyd gan y Cyngor am arian i weithredu'r rhaglen hon wedi cael ei oedi gan y Cynulliad. Mae'r Adran yn parhau yn hyderus y bydd yr adnoddau yn cael eu hymrwymo i'r cynllun er golyga hyn y bydd oedi yn y gweithredu. |
| | | Cynnal asesiad o anghenion marchnad lafur y Gogledd Orllewin yn sgîl gwybodaeth newydd am ddatblygiadau sylweddol | Gwyrdd | Adroddiad Anghenion Marchnad Lafur Gogledd Orllewin wedi ei gwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad i'r Fagloriaeth yn ôl y rhaglen gyflwyno ac ar draws ystod oedran gan greu cyswllt clir gyda rhaglen Llwyddo'n Lleol a Dynamo Cymru. | **Gwyrdd** | Gwaith wedi'i wneud gyda'r Adran Addysg i sicrhau bod prosiect Llwyddo'n Lleol a Dynamo yn bwydo'i mewn i weithgareddau'r BAC Cymru. |
| **19.** | **Torri'r cylch amddifadedd** | Cael trefn newydd ar gyfer cyd-gynllunio gwaith rhwng Tai ac Adfywio yn y cymunedau difreintiedig | **Gwyrdd** | Trefniadau cydweithio wedi eu cytuno yn y Bartneriaeth Tai a'u gweithredu gydol y flwyddyn. Cyd-gynllunio wedi digwydd drwy gynlluniau Tai Iaith Gwaith ac ARBED. |
| | | Cryfhau perchnogaeth gwasanaethau ar draws y Cyngor i'r 8 Cynllun Adfywio ardal. | **Ambr** | Mae'r cysyniad hwn o ddarparu gwasanaethau ar lefel yr 8 ardal dalgylch wedi ei gyfeirio ymlaen i'r Bwrdd Rhaglen Trawsffurfio yng Nghynllun Tair Blynedd 2011/14. Bydd hyn yn sicrhau perchnogaeth ar y lefel uchaf ar draws Adrannau'r Cyngor, serch hynny, mae wedi effeithio ar yr amserlen i weithredu'r gwelliant yn unol â'r hyn gytunwyd yn wreiddiol yng Nghynllun Busnes yr Adran. |

**Rhaglen Strategol – Amgylchedd ac Isadeiledd**

**Cyd-destun Strategol**

Mae dau o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yn berthnasol i elfennau o'r rhaglen hon. Yn gyntaf, mae "Newid Hinsawdd" yn nodi bod angen i ni weithredu'n lleol er mwyn wynebu sialensiau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn y cyd-destun lleol canlynol:-

- Os byddwn yn parhau i gynhyrchu lefelau uchel o CO2 bydd y tymheredd yn parhau i godi
- Mae'r nifer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r risg o lifogydd yn uchel yn cynyddu
- Er gwaethaf natur wledig y sir, mae trigolion Gwynedd yn cynhyrchu ôl troed ecolegol uchel o'i gymharu â gweddill Cymru
- Mae ol-troed unigolyn o Fangor yn uwch nag ol-troed unigolyn o Gaerdydd neu Abertawe.

Yn ail, mae "Tai" yn nodi bod angen gwella cyflenwad, ansawdd, fforddiadwyedd ac addasrwydd y stoc dai er mwyn cwrdd ag anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- 10.5% o'r stoc gyfan yn anfoddhaol - y chweched uchaf yng Nghymru
- 47% o dai Gwynedd wedi eu hadeiladu cyn 1919, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 32%
- 8.6% o stoc tai Gwynedd yn wag
- Perygl o brisio pobl, yn arbennig teuluoedd ifanc, allan o'r farchnad dai
- Lefel uchel o ail gartrefi yn gyrru prisiau tai yn uwch
- Anghenion cymdeithas yn newid – rhagor o aelwydydd un person / poblogaeth yn heneiddio.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaliadwy yn amcan o'r pwys mwyaf.

Mae'r Cyngor yn dymuno meithrin a datblygu cymuned sirol sydd yn gynaliadwy. Dros oes y cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael a'r prif faterion a nodir isod er mwyn ceisio sicrhau:-

- Lleihau ol-troed ecolegol y Sir ac ymateb yn ddoeth i newid yn yr hinsawdd
- Galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy ddarparu cyflenwad o dai addas
- Rheolaeth gadarn o wastraff y Sir
- Cefnogaeth ar gyfer mynediad hwylus at wasanaethau.

**Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)**

Heb i'r Cyngor ymyrryd yn y maes hwn, mae perygl y gwelwn gymunedau anghynaladwy a gwasanaethau sydd ddim wedi eu paratoi i ymateb i newid yn yr hinsawdd.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Yn ystod cyfnod y Cynllun Tair Blynedd (2008-11) bu'r Rhaglen Amgylchedd ac Isadeiledd yn gyfrifol am ddatblygu prosiectau ym meysydd ymyrraeth newid hinsawdd a thai a adnabuwyd o fewn y Strategaeth Gymunedol.

Mae newid yn yr hinsawdd wedi ei adnabod fel problem fyd eang y mae'n rhaid gweithredu arno yn lleol er mwyn lliniaru ei effeithiau ac addasu i'w sgil effeithiau. Bu Cynllun Lleihau Carbon y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn llwyddiannus o safbwynt lliniaru effeithiau newid hinsawdd gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tra gwelwyd cynnydd mewn lefelau ailgylchu a chompostio gwastraff bwrdeistrefol yn y Sir.

Yn ogystal â lleihau ein hallyriadau mae'n allweddol ein bod yn cymryd camau i addasu i sgil effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd megis cynnydd mewn llifogydd a thywydd eithafol. Bu prosiectau megis Prosiect Peilot Pwllheli a Newid Hinsawdd:Newid Lleoedd yn llwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth ac adnabod bygythiadau i ddarpariaeth gwasanaeth a chymunedau o effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd.

Mae darpariaeth cyflenwad o dai addas yn bwysig er mwyn galluogi pobl i aros o fewn eu cymunedau a llwyddwyd i ddarparu'r nifer o dai fforddiadwy a nodwyd. Bu i natur y farchnad a phrinder adnoddau olygu nad oedd modd darparu mynediad i gymaint â'r disgwyl o brynwyr tro cyntaf. Yn ogystal fe roddwyd pwyslais ar gynyddu'r defnydd o'r stoc dai presennol a llwyddwyd i ddod a nifer o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Sefydlwyd Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd hefo Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2010/11 fydd yn golygu mai un Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer ardal cynllunio'r ddau awdurdod. O ganlyniad i'r gwaith a oedd yn gysylltiedig â sefydlu'r Uned nid oedd modd cwrdd â'r bwriadau a nodwyd ar gyfer y cyfnod. Fodd bynnag, bydd sefydlu'r Uned yn dod a nifer o fuddiannau i'r dyfodol megis arbedion ariannol o ganlyniad i rannu costau ac arbenigedd.

Mae darpariaeth cludiant ar gyfer sicrhau mynediad i wasanaethau yn bwysig mewn ardal wledig wasgaredig fel Gwynedd. O ganlyniad i oedi yn y broses o benodi Rheolwr ar gyfer yr Uned Cludiant Integredig nid oedd modd cyflawni'r bwriadau a nodwyd. Bydd hyn yn derbyn sylw yn ystod 2011/12.

Mae llawer o waith da wedi ei gyflawni yn y rhaglen ar gyfer 2008-11 sydd wedi gosod sail gadarn ar gyfer y dyfodol. Bydd nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun 3 Blynedd newydd yn adeiladu ar y gwaith hwn.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd) Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 20. | Tai Fforddiadwy | Byddwn wedi sicrhau bod 15% o'r holl unedau tai newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn dai fforddiadwy | Gwyrdd | Llwyddwyd i sicrhau fod 67 o unedau tai newydd (neu 36%) a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn yn dai fforddiadwy. Dros gyfnod y Cynllun 3 blynedd, 190 o unedau fforddiadwy newydd wedi eu darparu yng Ngwynedd o ganlyniad i'r system gynllunio. |
| | | Y Cyngor wedi adolygu cynllun Cymorth Prynu ac wedi adnabod opsiynau gyda phartneriaid i hyrwyddo mynediad i'r farchnad dai. | Ambr | Gwaith wedi mynd rhagddo gyda phartneriaid allweddol i adnabod opsiynau priodol.<br>Yn sgil argaeledd £800K o adnoddau grant gan Lywodraeth Cymru, llwyddwyd i weithredu cynllun Cymorth Prynu yng Ngwynedd yn 2010-11 a arweiniodd at gynorthwyo 21 ymgeisydd drwy'r fenter. |
| 21. | Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd | Byddwn wedi hyrwyddo dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd **lleol** a dod ac eiddo masnachol yn ôl i ddefnydd. | Gwyrdd | Llwyddwyd i sicrhau fod cyfanswm o 118 o eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd dros y cyfnod Cynllun 3 Blynedd. |
| | | Sicrhau Cyflenwad o 40 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd | Gwyrdd | 58 eiddo gwag wedi dod i mewn i ddefnydd yn 2010-11. |
| 22. | Rheoli Risg Llifogydd | Byddwn wedi cynhyrchu strategaeth ymateb i beryglon llifogydd ar gyfer Tref Pwllheli y gellir wedyn ei ddefnyddio fel templed ar gyfer ardaloedd eraill. | Gwyrdd | Strategaeth ymateb mewn lle. |
| 23. | Newid Hinsawdd | Fel rhan o'r Prosiect Newid Hinsawdd, Newid Lleoedd byddwn yn gweithio gyda 2 faes gwasanaeth o fewn y Cyngor er mwyn adnabod cyfleon a bygythiadau sy'n debygol o ddeillio o newid hinsawdd ac wedi cynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn adnabod y prif faterion. | Gwyrdd | Gwaith wedi ei wneud gyda dau faes gwasanaeth fel rhan o'r prosiect Newid Hinsawdd Newid Lleoedd i adnabod cyfleon a bygythiadau sy'n debygol o ddeillio o newid hinsawdd. |
| 24. | Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon | Byddwn yn llunio rhaglen ar gyfer ymestyn cwmpas Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd i'r gymuned ehangach | Gwyrdd | Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd wedi adnabod blaenoriaethau a chyfleon er mwyn ehangu cwmpas y cynllun i'r gymuned ehangach a rhaglen wedi ei llunio. |
| | | Byddwn yn gweithredu ar Gynllun Rheoli Carbon y Cyngor er mwyn sicrhau lleihad yn yr allyriant o $CO_2$ | Gwyrdd | Prosiectau o fewn Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor wedi arwain at ostyngiad o 9% mewn allyriadau $CO_2$ ers blwyddyn gwaelodlin 2005/06. |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn arwain rhaglen y Bwrdd Gwasanaeth Lleol i leihau allyriadau carbon gan y cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd | Gwyrdd | Bu i raglenni gwaith o fewn sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol arwain at y gostyngiadau canlynol mewn allyriadau carbon yn y gwahanol feysydd gwaith:-<br>▪ Ynni mewn adeiladau annomestig – 7.92%<br>▪ Trafnidiaeth – 8.67%<br>▪ Gwastraff – lleihad o 520 tunnell $CO_2e$ |
| | | Byddwn yn gweithredu ar raglen waith er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd safon Lefel 3 yn Fframwaith Asesiad Caffael Cynaliadwy (SPAF) Gwerth Cymru 2011/12. | Prosiect wedi Cau | Grŵp Arweinyddiaeth wedi penderfynu dileu'r gwelliant yn sgîl y sefyllfa ariannol. |
| 25. | Lleihau a Rheoli Gwastraff | Byddwn wedi cyflawni asesiad cychwynnol o ymgeiswyr/darparwyr prosiect gwastraff gweddilliol rhanbarthol | Gwyrdd | Ar raglen - 3 darparwr wedi dewis. Trafodaethau mewn perthynas â'r Safle Posib. Proses negodi bellach wedi dechrau. |
| | | Byddwn wedi llunio strategaeth ar gyfer sicrhau fod yna ymestyniad o'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn ein rhaglen ail-gylchu | Gwyrdd | Rhaglen o ymgyrchoedd penodol yn weithredol gan gynnwys cyd-weithio gydag ysgolion, Prifysgol Bangor a chymunedau. |
| | | Byddwn wedi dethol darparwr ar gyfer creu'r cyfleuster i ymdrin â gwastraff bwyd. | Gwyrdd | Ar 31 Mawrth bu i'r Pwyllgor Craffu gymeradwyo ein rhaglen o ran cyflwyno'r gwasanaeth. Gwaith eisoes yn ei le gyda holl drigolion Dwyfor yn derbyn y gwasanaeth wythnos 23 Mai, 2011. Bydd ardal Meirionnydd yn dilyn fis Gorffennaf gyda thrigolion Arfon yn derbyn y gwasanaeth fis Medi 2011. |
| 26. | Polisïau Cynllunio | Byddwn wedi ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ynglŷn â'r weledigaeth a'r amcanion strategol | Coch | Gwaith o adnabod darnau gwaith ar gyfer cael sail tystiolaeth yn digwydd ar y cyd gyda Môn. |
| | | Bydd cytundeb cyflawni ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad. | Coch | Oherwydd newid mewn cyfeiriad i gyd-weithio gyda Chyngor Ynys Môn, er lles pobl Gwynedd, a sefydlu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, sydd yn ei dro wedi golygu llithriad yn y rhaglen wreiddiol ar gyfer paratoi CDLl. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft ymgynghorol yn cynnwys yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi cynllun datblygu ar gyfer ardal Awdurdodau Cynllunio |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd) Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwynedd a Môn. |
| **27.** | **Ail-fodelu cludiant** | Bydd Rheolwr Uned Cludiant Integredig wedi ei benodi gydag achos busnes lawn wedi'i lunio i sefydlu Uned Cludiant Integredig | **Ambr** | Proses penodi Rheolwr wedi golygu llithriad o 6 mis. Prosesau gweinyddu newydd mewn lle ar gyfer 2011/12, gyda rhaglen weithredu fanwl ar gyfer datblygu'r Cynllun Busnes. Adroddiad wedi ei gyflwyno i Bwyllgor yr Amgylchedd yn Rhagfyr 2010. Adroddiad dilynol ar y Cynllun Busnes i'w gyflwyno ym Medi 2011. |
| | | Byddwn yn gweithredu rhaglen waith y Strategaeth Cludiant Cymunedol gan lunio cynllun gweithredu mewn ymgynghoriad gyda'r trydydd sector. | **Coch** | |

**Rhaglen Strategol – Plant a Phobl Ifanc**

**Cyd-destun Strategol**
Un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Newid Demograffig". Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni gynllunio i ymateb i newid demograffig sylweddol a chynyddu ymdrechion i wneud yr ardal yn ddeniadol i deuluoedd a phobl ifanc. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- Mae cyfartaledd oedran Gwynedd yn 40.4, o'i gymharu â 38.6 yng Nghymru a Lloegr
- Rhwng 2001 a 2026, bydd poblogaeth Gwynedd yn weddol sefydlog ond byddwn yn gweld:-

- llai o blant- cynnydd yn nifer yr henoed
- gostyngiad yn y nifer o bobl mewn oedran gwaith

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaliadwy yn amcan o'r pwys mawr.
Mae datblygu potensial pob plentyn a pherson ifanc o fewn y sir, gyda'r addysg gorau a'r arlwy o gwricwlwm a chyrsiau addas ar eu cyfer hefyd yn amcan o'r pwys mawr.
Oherwydd natur cymdeithas, mae crebachu adnoddau yn fwy o fygythiad i rai carfannau mewn cymdeithas felly mae'n bwysig i gymryd y cyfle i ymgymryd â gwaith ataliol
Dros oes y cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael a'r prif faterion a nodir isod er mwyn:

- Ceisio symud rhwystrau i ryddhau potensial plant a phobl ifanc ar draws y Sir
- Darparu'r math cywir o arlwy addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial
- Cymryd camau i wella cyfleon i blant, pobl ifanc gan sicrhau gwasanaethau ataliol fydd yn cynnig ymyrraeth cynnar i'r rhai sydd ei angen.

**Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)**
Heb ymyrraeth, fydd yn fwyfwy anodd i ddarparu cyfleon cyfoes ar gyfer addysg a hyfforddiant ar draws y Sir fydd yn cyrraedd gofynion cyflogwyr a dyheadau plant a phobl ifanc. Bydd risg, heb ymyrraeth yn gynharach, bydd rhai carfannau o blant yn cael eu hamddifadu yn fwy nag eraill fydd yn rhoi cychwyn gwael iddynt am weddill eu hoes.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Un o brif amcanion y Rhaglen Plant a Phobl Ifanc oedd sicrhau fod isadeiledd addysgol Gwynedd yn gynaliadwy i'r dyfodol ac yn cynnig y math cywir o brofiadau a chyfleoedd dysgu i holl blant a phobl ifanc y Sir. Gwnaed camau cadarnhaol tuag at resymoli nifer y llefydd gweigion o fewn Ysgolion Cynradd drwy gytuno ar drefniadaeth newydd ar gyfer ysgolion yn nalgylchoedd Tywyn, Berwyn a'r Gader. Cynhaliwyd ymgynghoriadau statudol yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn. Mae trefniadau ad-drefnu Tywyn bellach yn nwylo Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol; a disgwylir am benderfyniad ar becyn cyllido cynllun dalgylch y Berwyn. Gwnaed gwaith rhagbaratoi ar gyfer cynnal ymgynghoriad yn nalgylch Y Gader.

Gwnaed camau cadarnhaol iawn hefyd tuag at sefydlu trefn newydd ar gyfer comisiynu addysg a hyfforddiant i ddysgwyr dros 16 oed a llwyddwyd i ymestyn y ddarpariaeth gwricwlaidd i bobl ifanc. Yn ogystal â darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant ffurfiol i bobl ifanc, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau fod gan bobl ifanc fynediad at brofiadau dysgu anffurfiol. Yn ystod cyfnod y cynllun hwn, buddsoddwyd mewn darpariaethau ieuenctid newydd megis Bws Ieuenctid Gwynedd a ffurfiolwyd y trefniadau cydweithio rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a mudiadau ieuenctid eraill megis yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc. Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl ifanc a lwyddodd i ennill achrediadau ffurfiol yn sgil y cydweithio a'r buddsoddiadau newydd yma.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd rhoddwyd sylw arbennig i gefnogi teuluoedd ar draws y Sir a sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth briodol ac amserol drwy gynlluniau megis y Tîm o Amgylch y Plentyn a'r gwasanaethau rhiantu a gynigir drwy Ganolfannau Integredig Plant Plas Pawb yng Nghaernarfon a Chaban Bach ym Mlaenau Ffestiniog.

Bydd y meysydd hyn oll yn parhau i dderbyn sylw manwl yng Nghynllun Rhaglen Plant a Phobl Ifanc y Cyngor ar gyfer 2011-14.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 28. | Ad-drefnu Ysgolion Cynradd | Byddwn wedi cwblhau asesiad effaith ieithyddol a chymunedol yn ardaloedd Tywyn a'r Berwyn | Gwyrdd | Mae'r asesiadau wedi eu cyflawni ac wedi eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori. |
| | | Byddwn wedi cynnal cyfarfodydd statudol yn y 6 ysgol yn ardal Tywyn, wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol statudol a chynnal yr ymgynghoriad statudol | Gwyrdd | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol ac adroddwyd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i bwyllgorau'r Cyngor. Mae'r cynigion ad-drefnu yn nalgylch Tywyn bellach yn nwylo Llywodraeth Cynulliad am benderfyniad terfynol. |
| | | Byddwn wedi cynnal cyfarfodydd statudol yn ardal y Berwyn, wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol statudol a chynnal yr ymgynghoriad statudol | Gwyrdd | Mae'r cyfarfodydd ymgynghoriad statudol yn y Berwyn wedi eu cynnal ac wedi eu hadrodd yn ôl i bwyllgorau'r Cyngor. |
| | | Byddwn wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ardal y Gader i'r Cyngor llawn yn Hydref 2010 | Ambr | Amserlen wedi llithro. Bydd ymgynghoriad yn rhan o ddalgylch Y Gader, a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Llawn cyn Nadolig 2011. |
| | | Byddwn wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ardal Eifionydd i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr 2010. | Coch | Amserlen wedi llithro. |
| 29. | Addysg Uwchradd a Hyfforddiant 14-19 | Byddwn wedi cyflwyno manylion ar gyfeiriad a dyfodol addysg a hyfforddiant 16-19 yn y Sir | Gwyrdd | Y dewis cwricwlaidd i bobl ifanc wedi ei ymestyn. |
| | | Bydd Grŵp Llywio Addysg Uwchradd wedi cwblhau ei waith ar oblygiadau'r newidiadau ar y sector uwchradd yng Ngwynedd i'w ystyried. | Gwyrdd | Wedi ei gwblhau. |
| 30. | Cynllun Tlodi Plant | Cynllun cynhwysiad ariannol wedi ei ymestyn i ddwy Ysgol Uwchradd yn Nwyfor a dwy yn Arfon | Coch | Gwelliant heb ei gyflawni oherwydd datblygiadau polisi'r Cynulliad yn dylanwadu ar sut y gellir ymestyn y Cynllun. |
| | | Strategaeth Tlodi Plant amlasiantaethol wedi ei chytuno ac ymgynghoriad wedi ei gynnal arni. | Ambr | Yn hytrach na chyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant ar wahân penderfynwyd cyhoeddi mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant fel rhan o'r Strategaeth Gymunedol ddrafft. |
| 31. | Gweithredu Strategaeth Ymyrraeth Gynnar | Gweithdrefnau Tîm o Amgylch y Plant wedi ymestyn i ardaloedd eraill o Wynedd – Dwyfor, Caernarfon, Bangor, Dyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog | Gwyrdd | Yn dilyn derbyn grant drwy Gynllun Potensial Gwynedd bydd y cynllun hwn yn symud i fodel newydd, sef y Tîm o Amgylch y Teulu. |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn wedi ehangu cynlluniau rhiantu. | Gwyrdd | Cefnogaeth ddwys yn cael ei gynnig i grwpiau penodol o rieni a theuluoedd mewn angen. |
| | | Adolygiad o gynllun gweithredu a chytundeb ar fodel timau ymyrraeth gynnar yn dilyn gwaith arfarnu. | Gwyrdd | Cynllun gweithredu wedi ei lunio ar gyfer rhoi'r Strategaeth Ymyrraeth Gynnar ar waith gan roi sylw penodol i drefniadau asesu anghenion plant a phobl ifanc. |
| **32.** | **Trawsnewid Gwasanaethau Ieuenctid** | Cynyddu'r % o bobl ifanc yn defnyddio amrediad o wasanaethau ieuenctid yng Ngwynedd, yn arbennig mewn ardaloedd wedi eu targedu | Gwyrdd | Wedi cyflawni drwy gynlluniau megis y Bws Ieuenctid, darpariaeth Gweithwyr Ysgolion, a chytundebau lefel gwasanaeth newydd gyda'r Urdd a Ffermwyr Ifanc. |
| | | Gwneud gwell defnydd o'r Gwasanaeth i ddatblygu sgiliau pobl ifanc Gwynedd. | Gwyrdd | Wedi cyflawni nifer uwch o achrediadau drwy gynlluniau John Muir, 'Open College Network', Gwobr Dug Caeredin, Gwobr Cyflawniad Ieuenctid a Chwrs Aelodau Hŷn. |

**Rhaglen Strategol – Gwerth am Arian, a adnabyddir nawr yn Rhaglen Arbedion**

**Cyd-destun Strategol**

Fel y nodwyd eisoes, un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Gwasanaethau Cyhoeddus Arloesol.", gyda'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus arloesol, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac sy'n lleihau eithrio cymdeithasol, hyn oll mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- Pwysau ariannol cyson ar bob maes o wariant cyhoeddus
- Pwysau ariannol sydd yn debygol o barhau tros y tymor canolig a hwy
- Pwysau amlwg o du Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan am gynnydd mewn arbedion effeithlonrwydd
- Tueddiadau posib mewn penderfyniadau dyrannu adnoddau all fod yn anffafriol i'r sir.

Mae sicrhau gwasanaethau effeithiol ac ymatebol yn greiddiol i rôl y Cyngor. Mae adnoddau cyhoeddus yn crebachu a'n hasedau cyhoeddus yn heneiddio. Ar yr un pryd, mae disgwyliadau'r cyhoedd am safon gwasanaethau yn cynyddu.

Er mwyn medru goroesi a datblygu'r gwasanaethau gorau ar yr adeg hon, rhaid sicrhau bod y Cyngor ei hun mewn cyflwr gorau posib gyda'u hadnoddau i wneud hyn. Golygai rheolaeth gadarn ar ei adnoddau ariannol, rheini wedi eu blaenoriaethu ar sail gwybodaeth a data cadarn ac wedi eu cynllunio yn erbyn anghenion bwriadus. Mae'n golygu newid mewn gwasanaethau a moderneiddio, mae'n golygu arbed ble mae llai o angen a chydweithio ble'n berthnasol er mwyn sicrhau defnydd gorau o'r adnoddau rheini.

Mae'r Cyngor yn dymuno bod yn gorff sydd yn newid er mwyn cyflawni ei botensial i gyfrannu at Wella Gwynedd ac yn Gyngor sydd yn gwneud y gorau oll o'r adnoddau sydd ganddo. Dros oes y cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael a'r prif faterion a nodir isod er mwyn:-

- Canfod arbedion ariannol sylweddol
- Ail-gyfeirio adnoddau
- Gwneud defnydd effeithiol o'n systemau a thechnoleg
- Gwella'n systemau gwybodaeth a data
- Gwneud defnydd effeithiol o'n hasedau.

**Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)**

Heb ymyrraeth yn y maes hwn, byddwn yn methu cyrraedd ein targed arbedion, byddai gennym lai o arbedion effeithlonrwydd a risg gwirioneddol o dorri'r pethau anghywir gan felly fethu ar gynnal gwasanaethau allweddol i'r dyfodol.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Yn ystod y flwyddyn fe ddaeth effaith y dirwasgiad ar y pwrs cyhoeddus, ac ar gyllid y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, yn fwy amlwg. Roeddem eisoes wedi rhagweld bod cyfnod heriol ar y gorwel ac wedi cytuno ar becyn o arbedion i gychwyn yn 2010/11, fydd yn mynd beth o'r ffordd tuag at gau'r bwlch ariannol sy'n ein hwynebu.

Eleni felly fe fu angen i ni ganolbwyntio ar:

- Gyflawni'r holl arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2010/11. Cwblhawyd dros gant o gynlluniau yn llwyddiannus gan arbed cyfanswm o dros £4m, gyda £2.7m o hwn yn dod drwy weithio yn fwy effeithlon.
- Sicrhau ein bod wedi cynllunio sut byddwn yn canfod y bwlch o £37m yr ydym yn darogan y gallasem fod yn ei wynebu dros y blynyddoedd i ddod, gan geisio gwneud cymaint â phosibl drwy effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau gwasanaeth.

Yn ogystal â hyn fe fu'r Rhaglen Arbedion yn gyfrifol am gynlluniau eraill sydd yn paratoi'r ffordd i alluogi'r Cyngor i weithio'n fwy effeithlon yn y dyfodol. Er enghraifft, fe wnaethom wella'r modd yr ydym yn paratoi ein cynlluniau ariannol er mwyn adlewyrchu'n well y pwysau fydd ar ein gwahanol wasanaethau dros y cyfnod i ddod. Fe wnaethom hefyd gytuno ar gynlluniau i sicrhau ein bod yn gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth a'r data sy'n bodoli ar draws y Cyngor.

Ni lwyddwyd i gyflawni popeth a fwriadwyd ei wneud mewn rhai meysydd. Er enghraifft, rydym wedi cychwyn treialu trefniadau Gweithio Hyblyg ar gyfer staff y Cyngor ond fe gymerodd fwy o amser na'r disgwyl i roi'r drefn yn ei lle ac o ganlyniad mae'n rhy gynnar i ni allu asesu llwyddiant yr arbrawf. 'Roeddem hefyd wedi bwriadu cyflwyno system gyfrifiadurol newydd i wella'r ffordd yr ydym yn ymdrin â gwybodaeth am weithlu'r Cyngor, a thrwy hynny helpu ein rheolwyr i fod yn fwy effeithiol, ond fe benderfynwyd peidio â gwneud hyn am y tro hyd nes bydd holl gynghorau Gogledd Cymru wedi penderfynu a fyddai'n fwy effeithlon i gael un system ar y cyd.

Bydd gwaith y Rhaglen Arbedion yn parhau i gyfnod y Cynllun 3 Blynedd newydd gyda phwyslais ar gyflawni'r cynlluniau yn unol â'r amserlen tra'n effeithio cyn lleied â phosib ar y budd gaiff trigolion Gwynedd o'n gwasanaethau.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **33.** | **Strategaeth Ariannol** | Byddwn wedi adolygu a gwella ansawdd y Strategaeth Ariannol ar gyfer y cyfnod 2011/12 – 2013/14 | Gwyrdd | Strategaeth Ariannol 2011/12 - 2013/14 yn cynnwys cynlluniau ariannol gwasanaethau. |
| | | Byddwn wedi cwblhau adolygiad o Gynllun Asedau'r Cyngor. | Coch | Mae'r gwaith o gasglu'r wybodaeth angenrheidiol wedi cymryd llawer hwy na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd diffyg eglurder am y cymorth cyllidol fydd ar gael o du'r Llywodraeth i rai cynlluniau allweddol i'r Strategaeth. |
| **34.** | **Rhaglen Arbedion** | Byddwn yn gweithredu ar y rhaglen arbedion £16miliwn ac yn paratoi ar gyfer arbedion 2011/12. | Gwyrdd | Cafodd y £4m o arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2010/11 ei wireddu yn llawn. Mae £5m ychwanegol wedi'i adnabod i'w weithredu yn 2011/12. |
| **35.** | **Systemau Adnoddau Dynol Integredig** | Byddwn wedi prynu a mewnosod system newydd gyda'r prosiect yn gwella effeithlonrwydd ein rheolaeth gwybodaeth am staff. | Coch | Penderfynwyd aros am ganlyniad trafodaethau rhwng cynghorau Gogledd Cymru am y posibilrwydd o gydweithio i gael system ar y cyd, cyn mynd ymlaen i osod system ein hunain. Yn y cyfamser rydym wedi gwella trefniadau cyfredol y Cyngor fel eu bod yn fwy effeithlon. |
| **36.** | **Gwybodaeth a Data** | Byddwn wedi mabwysiadu strategaeth wybodaeth ar gyfer y Cyngor | Gwyrdd | Cwblhawyd yn Mai 2011. |
| | | Byddwn wedi cyflwyno achos busnes ar gyfer sustem rheoli gwybodaeth electronig a chyflwyno cynllun prosiect. | Gwyrdd | Cwblhawyd. |
| **37.** | **Gweithio'n Hyblyg** | Byddwn wedi ymestyn y peilot gweithio'n hyblyg fel ei fod yn rhan o weithgaredd prif lif y Cyngor. | Ambr | Yn ystod y flwyddyn penderfynwyd peidio ymestyn y peilot ond llwyddwyd i gwblhau rhan gyntaf y peilot, ond gan fod y gwaith o asesu'r canlyniadau yn dal i fynd yn ei flaen ni fu modd dod i gasgliad eto ar lwyddiant y cynllun. |

**Rhaglen Strategol – Pobl Bregus**

**Cyd-destun Strategol**

Fel y nodwyd eisoes, un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw “Newid Demograffig”, gyda’r Strategaeth yn nodi bod angen i ni gynllunio i ymateb i newid demograffig sylweddol a chynyddu ymdrechion i wneud yr ardal yn ddeniadol i deuluoedd a phobl ifanc. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- Mae cyfartaledd oedran Gwynedd yn 40.4, o’i gymharu â 38.6 yng Nghymru a Lloegr
- Rhwng 2001 a 2026, bydd poblogaeth Gwynedd yn weddol sefydlog ond byddwn yn gweld:-

- llai o blant
- cynnydd yn nifer yr henoed
- gostyngiad yn y nifer o bobl mewn oedran gwaith.

- Problemau iechyd yn cynyddu a gweithgaredd economaidd yn lleihau gyda’r blynyddoedd
- Pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal
- Effaith gynyddol ar natur bywyd cymunedol yng Ngwynedd.

Mae’r newid mewn cymdeithas a’r byd o’n cwmpas, y cyfeiriwyd ato eisoes, yn debygol o gael fwy o effaith ar rai nag eraill. Gallai olygu mwy o bolareiddio cymdeithasol a chynnydd mewn anghydraddoldebau o fewn y Sir. Bydd crebachu adnoddau yn fwy o fygythiad i rai carfannau mewn cymdeithas os na fyddwn yn cynllunio gwasanaethau yn fwriadus a thueddiadau demograffig a chymdeithasol yn debygol o gael fwy o effaith ar rai pobl a chymunedau.

Ar yr un pryd, mae cyfleoedd i ymgymryd â gwaith i newid siâp gwasanaethau ac i gynnal gwasanaethau arloesol newydd; gan gynnwys rhai ataliol.

Mae’r Cyngor yn dymuno sicrhau cyfleon cyfartal i bobl a chymunedau ar draws y Sir gan sicrhau bod gan unigolion mwyaf bregus y cyfleon i fyw bywyd llawn mewn sefyllfa o’u dewis. Dros oes y Cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i’r afael a’r prif faterion a nodir isod er mwyn:-

- Cynnig tegwch a chyfleon i bobl mwyaf bregus
- Sicrhau bod darpariaethau ar gyfer pobl bregus yn cael eu cynllunio a’u comisiynu i gwrdd ag anghenion yr unigolyn
- Paratoi gwasanaethau ymatebol mewn ffordd sydd yn integredig ac yn hwylus i gael atynt
- Rhoi cyfle i bobl fyw yn annibynnol yn ôl eu dymuniad.

**Mater- Disgrifiad o’r Risg (Cyfle neu Fygythiad)**

Heb ymyrraeth, mae peryg y bydd y gwasanaethau yn llai perthnasol i ddefnyddwyr Gwasanaeth ac yn rhy draddodiadol ac yn anghynaliadwy.

**Stori tu ôl i'r perfformiad**

Blaenoriaethau Rhaglen Strategol Pobl Bregus yn ystod cyfnod y Cynllun Tair Blynedd hwn oedd gosod seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol a hynny'n arbennig ym maes comisiynu, y gweithlu a threfniadau casglu data. Y nod wrth wneud hyn oedd cefnogi a galluogi cynnal a gwella darpariaeth gofal ar gyfer pobl Gwynedd.

Mae anghenion a dyheadau ein defnyddwyr yn newid a rhaid i'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig iddynt adlewyrchu'r newid hwnnw. Dyna yw pwrpas cynlluniau comisiynu a ddatblygwyd ar ffurf drafft eleni. Erbyn hyn datblygwyd modelau ariannol sy'n adlewyrchu'n gryno ein bwriadau ar gyfer y dyfodol. Fe fydd y rhain yn ein cynorthwyo i ymateb yn fwy creadigol i anghenion ein defnyddwyr mwy bregus a chadw llygad ar y geiniog yr un pryd.

Ond pobl sy'n darparu'r gwasanaeth ac yn gwireddu ein bwriadau, ac er na lwyddwyd i ddatblygu Strategaeth Gweithlu newydd mae'r gwaith o ddatblygu a hyfforddi staff gofal yn parhau. Yn ystod y tair blynedd diwethaf sefydlwyd timau amlddisgyblaethol ardal mewn partneriaeth gydag Iechyd a'r Trydydd Sector. Mae'r timau hyn yn medru ymateb yn well i anghenion unigolion ac yn gweithio ar ymatebion lleol i faterion lleol.

Fe fyddai'n anodd cynnal y drefn bresennol heb gymorth y miloedd o ofalwyr di dâl yng Ngwynedd ac mae hi'n destun balchder fod y gwaith ym maes Gofalwyr yn llwyddo. Mae gan y Cyngor Bolisi Gofalwyr a Ffurflen Asesu newydd ar gyfer eu hanghenion hwy fel gofalwyr. Llwyddwyd i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ifanc a gwella mynediad at wybodaeth ar eu cyfer.

Mae'r Prosiect i godi tai gofal ychwanegol yn un uchelgeisiol. Mae angen safle addas a phecyn ariannol cadarn i wireddu hyn. Mae adeiladwyr ar y safle yn Y Bala ond cymysg ydy'r sefyllfa mewn ardaloedd eraill. Mae safle ym Mangor ond dim sicrwydd ariannol a gwrthwynebiad i'r safle yn Llan Ffestiniog. Asiantaethau tai lleol sy'n gyfrifol am y safle a'r adeilad a'r Cyngor yn gyfrifol am y gofal.

Ond sut mae sicrhau gwelliant parhaus wrth drawsnewid gwasanaethau gofal? Yn dilyn buddsoddiad gan y Cyngor ac ail strwythuro, llwyddwyd i sefydlu Uned Fusnes o fewn yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r buddsoddiad wedi cyfrannu'n sylweddol at allu'r Adran a'r Cyngor i wella gwybodaeth angenrheidiol am ansawdd darpariaeth yn ogystal â natur angen. Mae hyn yn hanfodol wrth gynllunio ac ail fodelu gwasanaethau o fewn i'r cylch comisiynu. Dydy'r defnyddiwr ei hun ddim yn ymwybodol o'r gweithgaredd hwn ond dyma'r uned sy'n sicrhau fod gwasanaethau ar gael yn y llefydd iawn, i'r bobl iawn ac am y gost iawn. Mae gwaith mawr wedi ei wneud i lanhau data Gwynedd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i wireddu ein huchelgais, ein bwriadau comisiynu a thystiolaethu ein bod yn gwneud gwahaniaeth i blant ac oedolion Gwynedd.

Gosod seiliau oedd hanes 2008-11 ac mae'r gwaith o gryfhau ymhellach y seiliau hynny yn parhau yn y Cynllun Tair Blynedd newydd.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **38.** | **Comisiynu Gwasanaethau** | Datblygu Strategaeth Comisiynu ar draws yr Adran sy'n cwrdd ag anghenion holl grwpiau cleient ar gyfer 2010-14 - gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr ac sy'n gost effeithiol. | **Ambr** | Cynlluniau Comisiynu drafft wedi eu datblygu mewn tri maes gwasanaeth allweddol sef:<br>1. Pobl Hŷn<br>2. Anabledd Dysgu<br>3. Plant a Phobl Ifanc<br><br>Mae gwaith pellach i'w wneud ar y modelu ariannol fydd yn gwireddu'r bwriadau. |
| | | Adolygiad Strategol o Ofal Preswyl Pobl Hŷn- Darpariaeth preswyl wedi ei resymoli yng Ngwynedd gan sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion cofrestru, disgwyliadau defnyddwyr ac yn gost effeithiol. | **Ambr** | Argymhellion yr Adolygiad wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyngor ac o ganlyniad i hyn mae gwaith ymgynghori ar ddyfodol Hafod y Gest wedi cychwyn. Eisoes cytunwyd i gau cartref Bron y Graig yn y Bala. |
| | | Cynllun Adeiladu'r Dyfodol - Tai Gofal Ychwanegol yn weithredol yn y 4 ardal o fewn y Cynllun. Byddwn wedi ail gomisiynu'r ddarpariaeth yng nghartrefi preswyl yn unol â'r Cynllun. | **Ambr** | Adnabuwyd 4 safle sef:<br>Y Bala- gwaith adeiladu wedi cychwyn ar adeilad Awel y Coleg a'r dyddiad targed cwblhau ydy Ebrill 2012.<br>Llan Ffestiniog- gwrthwynebiad wedi bod i'r cynlluniau adeiladu gwreiddiol. Cynllun newydd wedi ei ddatblygu<br>Porthmadog- Dim arian mewn lle ar hyn o bryd, ond trafodaethau ar safleoedd posib<br>Bangor - safle wedi ei gytuno ond dim sicrwydd ariannol. |
| | | Adolygu darpariaeth Anabledd Dysgu, gan gynnwys Cynllun Lletya - Eglurder ynglŷn â bwriad comisiynu ar gyfer defnyddwyr, gofalwyr a darparwyr gyda chynllun ar gael ar gyfer comisiynu. | **Ambr** | Darpariaeth Anabledd Dysgu wedi ei adolygu. Sylfaen Cynllun comisiynu drafft wedi ei ddatblygu ond angen miniogi effaith strategol ar gyllidebau dros y pum mlynedd nesaf. |
| | | Adnabod Anghenion Gofalwyr - Cynnydd yn y dewisiadau cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr a sefydlu rhai elfennau o ddewis yn eu penderfyniad i ofal. | **Gwyrdd** | Nifer o lwyddiannau pwysig gan gynnwys:<br>1. Ffurflen ar Asesu Gofalwyr ar Raise.<br>2. Polisi Gofalwyr wedi cael ei dderbyn gan y Cyngor. |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 3. Siarter Hawliau wedi ei drosglwyddo i gynllun busnes Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd i'w gyflwyno ym mis Rhagfyr.<br>4. Siarter Hawliau Gofalwyr Ifanc i'w lansio ym mis Mehefin.<br>Llyfryn Gwybodaeth Ddefnyddiol i Ofalwyr a Gofalwyr Ifanc yn cael ei adolygu a'i ail-brintio (dros 2,500 copi o'r fersiwn wreiddiol wedi eu dosbarthu). |
| **39.** | **Datblygu Gwasanaethau** | Datblygu cynlluniau sefydlu Timau Gwasanaeth Integredig i Deuluoedd i gyfarfod â disgwyliadau deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym 2013. Y bwriad ydy sicrhau gwell deilliannau i blant a theuluoedd gan sicrhau ymateb holistaidd. | **Gwyrdd** | Trefniadau ar y gweill i gydweithio efo Cyngor Môn ar y cynlluniau hyn a chreu model addas i ardal wledig. Fe fydd gofyn i'r timau fod yn weithredol erbyn Ebrill 2013. |
| | | Gweithredu ar raglen Partneriaeth mewn Gofal yn unol â Chynllun Bwrdd Gwasanaethau Lleol<br>Mi fydd y camau a'r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod 2009/10, ac yn arbennig timau ardal aml asiantaethol wedi eu gwerthuso ac yn sail ar gyfer argymelliadau pellach. | **Ambr** | Nifer o lwyddiannau pwysig gan gynnwys:<br>• Timau amlddisgyblaethol yn eu lle<br>• Grwpiau ardal wedi eu sefydlu<br>• Cynlluniau gweithredu lleol wedi eu datblygu<br>• Gwasanaeth Oedolion wedi ail strwythuro i gyfarfod ag anghenion y rhaglen.<br>• Ailstrwythuro diweddar ym maes Iechyd wedi achosi peth oedi yn yr amserlen wreiddiol. |
| **40.** | **Gweithlu** | Gweithredu'r Strategaeth Gweithlu sy'n cynnwys ymateb i fwriadau comisiynu'r dyfodol sef gweithlu addas a saff sy'n gallu ymateb i ofynion newydd. | **Coch** | Amserlen wedi llithro gan fod amserlen cyhoeddi'r cynlluniau comisiynu hefyd wedi llithro. Mae paratoi Strategaeth Gweithlu yn rhan o Gynllun Busnes 2011/12. |
| **41.** | **Perfformiad ac Adnoddau** | Cyhoeddi a gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys eglurder o ran y canlyniadau y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgyrraedd atynt. | **Gwyrdd** | Y Fframwaith wedi ei gyhoeddi a staff wedi derbyn hyfforddiant arno yng nghyd-destun trefniadau arferol yr adroddiad blynyddol a chynllunio busnes. Fe fydd y trefniadau yn cael eu hadolygu yn 2011-12 . |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth- Hyder bod gwybodaeth bersonol a gedwir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gywir, yn gyfredol ac yn ddiogel. | Ambr | Gwaith yn parhau ar weithredu'r rhaglen waith fawr hon. Hyfforddiant staff ar ddiogelu data a defnydd diogel o systemau yn cychwyn mis Mai ac fe fydd hyn yn arwain at godi ymwybyddiaeth ac atgoffa staff o'u cyfrifoldebau. Gwaith i roi trefn ar system ffeilio electroneg ar y gweill, ond yn llithro ychydig. Rhaglen waith ar ansawdd data yn cael ei gweithredu. |
| | | Cytuno ar y modd y bwriedir diwallu anghenion system Technoleg Gwybodaeth wedi i'r cytundeb RAISE ddod i ben. Cynllun comisiynu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth wedi ei gytuno. | Gwyrdd | Cytundeb cynnal a chadw i RAISE hyd at Ebrill 2014 wedi'i gytuno ac mewn lle. Trafodaethau yn parhau gan y consortiwm i ddarganfod datrysiad delfrydol i'r dyfodol. Trafodaethau ar lefel uwch a SOCITM, (Society of Information Technology Managers) ynglŷn â datrysiad cenedlaethol yn cael eu cynnal hefyd. |

## PROSIECTAU STRATEGOL

Yn ychwanegol i'r Rhaglenni uchod, mae nifer fechan o Brosiectau Strategol yn rhan o'r Cynllun Tair Blynedd er mwyn sicrhau datblygiadau mewn meysydd allweddol eraill ac yn cael eu monitro ar wahân. Mae canlyniadau perfformiad y prosiectau yma wedi eu nodi isod.

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 42. | Siartr Iaith ar gyfer Gwynedd | Byddwn wedi gwreiddio addewidion y Siartr Iaith o fewn y sector gyhoeddus yng Ngwynedd gyda chynllun gwireddu a thargedau ar waith gan holl bartneriaid cyhoeddus y Siartr ac yn cael eu monitro. | Coch | Llithriad wedi digwydd yn sgîl penderfyniad Partneriaeth Hunaniaith wedi ail-flaenoriaethu ei waith i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ieithyddol rheolwyr fel deilliant gwell. |
| 43. | Cynllunio Ieithyddol | Byddwn wedi grymuso tair cymuned (ym Mhen Llŷn, Ardudwy a Dyffryn Ogwen) a'u cefnogi i gynllunio ieithyddol yn lleol gyda Chynllun Gweithredu ieithyddol ar waith i fynd i'r afael â'r materion angen sylw | Gwyrdd | Gwahanol weithgareddau wedi eu cynnal yn y tair ardal i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg, megis offer gorsaf radio wedi ei osod yn Ysgol Dyffryn Ogwen a hyfforddiant wedi ei gynnal ar sut i'w defnyddio. |
| | | Cydweithio gyda dwy gymuned gyferbyniol yng Ngwynedd i lunio a rhoi ar waith Gynllun Cymhathu Cymunedol fel peilot yn y ddwy gymuned. | Ambr | Digwyddiadau niferus i godi ymwybyddiaeth wedi eu cynnal, a 105 wedi cofrestru i dderbyn gwybodaeth am weithgareddau i'r dyfodol. |
| 44. | Arbedion ac Effeithlonrwydd (Cam 2) | Datblygu dwy fframwaith effeithlonrwydd newydd – effeithlonrwydd gweithredol ac effeithlonrwydd strategol gan gynnwys dau adolygiad strategol o wahanol feysydd gwasanaeth | Gwyrdd | Ffocws clir gan y Cyngor ar gomisiynu canlyniadau yn sgil yr adolygiadau strategol sydd wedi eu cynnal. |
| | | Byddwn yn gweithio gyda chynghorau eraill ynglŷn ag asesu opsiynau arbedion effeithlonrwydd gweithio ar y cyd. | Gwyrdd | Gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun gwaith - swyddogion Gwynedd yn chwarae rhan allweddol wrth arwain ar feysydd ar draws Gogledd Cymru. |
| 45 | Cynllunio Argyfwng | Byddwn wedi llunio llawlyfr gweithredu; sicrhau fod pawb yn deall eu rôl yn y broses a chynnal ymarfer ar gyfer llifogydd | Ambr | Cynllun cyfredol haws i'w dilyn; staff perthnasol yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt; a chanolfan argyfwng addas.<br>Gwella'r gallu yng Ngwynedd i wrthsefyll ac adfer wedi llifogydd |

| | Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth a fwriadwyd ei wneud yn 2010/11 | Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn wedi creu llawlyfr gweithredu ar gyfer Pandemig Ffliw i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd oddi wrth brofiadau 2009/10 | Gwyrdd | Wedi ei gwblhau. |
| | | Byddwn wedi creu Cynllun Adferiad | Gwyrdd | Wedi ei gwblhau. |
| | | Byddwn wedi adolygu'r gofrestr risgiau a'i briodoli i sefyllfa Gwynedd | Gwyrdd | Wedi ei gwblhau. |
| | | Byddwn wedi sicrhau fod y capasiti priodol gennym i wireddu'r anghenion o fewn y maes Cynllunio Argyfwng. | Coch | Gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddo; y swyddogion wedi cyflwyno cynigion a'r rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn awr. |

# ATODIAD 2

## Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2010/11 – Dangosyddion Allweddol

Mae'r tabl isod yn nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol a fabwysiadwyd fel rhan o'r Cerdyn Cytbwys corfforaethol gan y Cyngor ar gyfer 2010/11. Fe welir fod gwybodaeth am berfformiad a thargedau 2008/09, 2009/10, a 2010/11 ac asesiad a oedd y Cyngor wedi llwyddo yn erbyn y targed. Yn ogystal, mae'r golofn 'Tuedd' yn dangos a yw'r perfformiad wedi gwella (🡅), aros yn gyson (⇔) neu waethygu (🡇) ers perfformiad 2009/10.

| Dangosydd | Targed 08/09 | Gwir 08/09 | Targed 09/10 | Gwir 09/10 | Targed 10/11 | Gwir 10/11 | Canlyniad | Tuedd | Cyfartaledd Cymru 10/11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran graddau 5 A* - G TGAU neu gyfatebol | 91.0% | 90.3% | 90.5% | 90.0% | 91.0% | 91.0% | Gwyrdd | 🡅 | |
| Canran y disgyblion 16 oed sy'n ennill y Dangosydd Pwnc Craidd | 46.0% | 50.5% | 46.5% | 48.0% | 47.0% | 53.0% | Gwyrdd | 🡅 | |
| Canran y disgyblion sydd wedi eu hasesu ar Lefel 3 cadarn yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n dilyn rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 7 | 95.0% | 88.0% | 88.0% | 95.7% | 89.0% | 96.1% | Gwyrdd | 🡅 | |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a chafodd ganiatad cynllunio yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd a chafodd ganiatad cynllunio yn ystod y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd | 20% | 24% | 15% | 25% | 15% | 17.48% | Gwyrdd | 🡇 | |
| Nifer pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth trwy'r Cyngor ar gyfer sefydlu busnes | 40 | 38 | 150 | 619 | 249 | 512 | Gwyrdd | 🡇 | |
| Canran o unedau diwydiannol y Cyngor sy'n llawn | 90% | 93% | 90.0% | 92.9% | 85.0% | 92.53% | Gwyrdd | ⇔ | |
| Nifer y teuluoedd digartref wedi eu lleoli mewn llety dros-dro am fwy na 6 mis gan yr Awdurdod | 5 | 46 | 40 | 91 | 0 | 62 | Coch | 🡅 | |
| Canran o wastraff dinesig a gaiff ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio | 19.00% | 18.94% | 22.00% | 20.31% | 23.00% | 22.29% | Gwyrdd | 🡅 | 26.74% |
| Canran o wastraff dinesig a gaiff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall | 17.00% | 15.96% | 18.00% | 21.01% | 22.00% | 22.41% | Gwyrdd | 🡅 | 16.89% |
| Canran o wastraff dinesig pydredig a gaiff ei dirlenwi | 61.0% | 59.6% | 57.0% | 50.6% | 51.0% | 54.1% | Coch | 🡇 | 50.88% |
| Canran o leihad mewn allyriant $CO_2$ o'r defnydd o eiddo yn adeiladau annomestig y Cyngor | Gosod gwaelodlin | -3% | -4.0% | -5.3% | -15% | -10.0% | Coch | 🡅 | 5.37% |

| Dangosydd | Targed 08/09 | Gwir 08/09 | Targed 09/10 | Gwir 09/10 | Targed 10/11 | Gwir 10/11 | Canlyniad | Tuedd | Cyfartaledd Cymru 10/11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel cynnydd yn y Dreth Cyngor (dros gyfnod 4 blynedd y Cyngor) | Dim mwy na +/- 1% o gyf. y cynnydd ar draws Cymru | Cynnydd Gwynedd = 3.9% sef union c'taledd Cymru | Dim mwy na +/- 1% o gyf. y cynnydd ar draws Cymru | 7.99% (cyfartaledd Cymru 7.8%) | Ddim mwy na +/- 1% o gyf. y cynnydd ar draws Cymru | 12.2% (cyfartaledd Cymru 11.1%) | Gwyrdd | ⇔ | |
| Y swm ariannol y llwyddwyd i'w ddenu trwy wneud cynnydd derbyniol yn erbyn cerrig milltir y Cytundeb Gwelliant | £1.300m | £1.338m | £1.3m | £1.3m | £1.3m | £1.3m | Gwyrdd | ⇔ | |
| Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | dim mwy na 0.4% yn uwch yn y flwyddyn | Gwariant ddim yn uwch | dim mwy na 0.4% yn uwch yn y flwyddyn | o fewn goddefiant derbyniol | dim mwy na 0.4% yn uwch yn y flwyddyn | 0.33% | Gwyrdd | ⇔ | |
| Cyfanswm y cynlluniau arbedion y gellir eu gwireddu | £3.500m | £3.973m | £5m | £16m dros 3 blynedd | £16m (2010/11 - 2012/13 | £2.960m | Gwyrdd | - | |
| Cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd wedi eu canfod | - | £2.186m | £1.9m | £2.67m | £5.7m | £1.090m | Gwyrdd | - | |
| O holl ddangosyddion allweddol cerdyn cytbwys y Cyngor yn y Cynllun 3 Blynedd, y canran sydd wedi cwrdd â'r targed | 70-75% | 78% | 70-75% | 64% | 70-75% | 67% | Coch | ↑ | |
| Canran y gwelliannau i ymateb i flaenoriaethau strategol yn y Cynllun 3 Blynedd sydd wedi cyflawni deilliant y flwyddyn | 75-80% | 82% | 75-80% | 81% | 75-80% | 86% | Gwyrdd | ↑ | |
| O holl ddangosyddion allweddol cerdyn cytbwys y Cyngor yn y Cynllun 3 Blynedd, y canran sydd wedi gwella neu wedi cynnal perfformiad | 70 - 75% | 79% | 70 - 75% | 62% | 70 - 75% | 67% | Coch | ↑ | |
| Nifer rheolwyr sydd wedi ennill cymhwyster Arwain a Rheoli | 40 | 7 | 70 | 67 | 180 | 59 | Coch | ↓ | |
| Canran yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn isafswm o 6 awr o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn | 90% | 72% | 74% | 73% | 80% | 66% | Coch | ↓ | |
| Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff | 9.8 | 9.8 | 9.5 | 10 | 9.2 | 8.7 | Gwyrdd | ↑ | 10.3 |
| Lleihad yn ôl-troed adeiladau'r Cyngor | 2500m$^2$ | 2631m$^2$ | 6,000m$^2$ | 7,212m$^2$ | 10,000m$^2$ | 14,697m$^2$ | Gwyrdd | ↑ | |
| Canran o adeiladau'r Cyngor sydd yn y Categori Cyflwr "Da" neu "Dderbyniol" | 81.0% | 81.0% | 82.5% | 77.0% | 85.0% | 77.0% | Ambr | ⇔ | |
| Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal brosesu cais budd-dal neu newid amgylchiadau (dyddiau) | 14.0 | 12.8 | 13.0 | 12 | 13 | 14.2 | Ambr | ↓ | |

| **Dangosydd** | **Targed 08/09** | **Gwir 08/09** | **Targed 09/10** | **Gwir 09/10** | **Targed 10/11** | **Gwir 10/11** | **Canlyniad** | **Tuedd** | **Cyfartaledd Cymru 10/11** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran o'r asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith yn unol â'r Fframwaith Asesu – Gwasanaeth Arbenigol Plant | 60% | 84% | 80% | 76% | 60% | 47% | Coch | ↓ | 67% |
| Canran y lleoliadau cyntaf (i blant sy'n derbyn gofal) sy'n dechrau gyda chynllun gofal clir yn ei le | 90% | 95% | 95% | 100% | 90% | 100% | Gwyrdd | ⇔ | 92% |
| Canran y gofalwyr ifanc y mae'r gwasanaeth cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt gafodd eu hasesu | 80% | 40% | 100% | 65% | 80% | 100% | Gwyrdd | ↑ | 92% |
| Canran o blant mewn gofal gafodd eu penblwydd yn 16 oed gyda cynllun llwybr bywyd | Trefn yn ei le | 100% | 100% | 87% | 100% | 93% | Ambr | ↑ | |
| Nifer o leoliadau maeth newydd yn ystod y cyfnod | 20 | 27 | 20 | 48 | 40 | 29 | Coch | ↓ | |
| Nifer o unedau 'Gofal Ychwanegol' wedi eu datblygu | Gwaith ar ddwy safle | Gwaith wedi ei gychwyn ar ddwy safle | 30 | 0 | 130 - 150 | 0 | Coch | - | |
| Canran y galwadau ffôn sy'n cael eu hateb o fewn 15 eiliad | 80.00% | 74.73% | 80.00% | 75.80% | 80.00% | 74.30% | Ambr | ↓ | |
| Canran y llythyrau a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith | 79% | 79% | 80% | 80% | 80% | 82% | Gwyrdd | ↑ | |
| Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 94% | 94% | 94.0% | 94.6% | 95.0% | 93.8% | Ambr | ↓ | 93.8% |
| Canran y cyfeiriadau sydd yn cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis | 25% | 43% | 37% | 49% | 20% | 27% | Coch | ↑ | 29% |
| Nifer o reolwyr a goruchwilwyr wedi derbyn hyfforddiant gofal cwsmer | 100 | 114 | 230 | 281 | 430 | 19 | Coch | ↓ | |

# ATODIAD 3

## Dangosyddion Statudol – Adrodd ar Berfformiad Terfynol 2010/11

Yn ogystal â dangosyddion allweddol y Cyngor, mae'n ofynnol i ni adrodd ar ddangosyddion statudol sydd wedi eu hadnabod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Trwy adrodd ar y dangosyddion hyn, gellir cymharu perfformiad Gwynedd gyda pherfformiad cyfartalog Cymru mewn meysydd penodol. Yn y tabl isod cyflwynir y data terfynol ar gyfer 2010/11.

| Cyf | Dangosydd | Canlyniad 08/09 | Targed 09/10 | Canlyniad 09/10 | Cyfartaledd Cymru 09/10 | Targed 10/11 | Canlyniad 10/11 | Cyfartaledd Cymru 10/11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EDU/002 | Canran:<br>i) Yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai dan ofal yr awdurdod lleol), a<br>ii) Disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol,<br>mewn unrhyw sefydliad dysgu wedi ei gynnal gan yr awdurdod lleol sy'n troi'n 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ac yn gadael addysg, hyfforddiant amser llawn neu'n dysgu wrth weithio heb gymhwyster allanol cymeradwy | 0.70%<br>5.30% | 0.70%<br>0.00 | 0.1%<br>12.50% | 0.90%<br>6.60% | 0.70%<br>0.00 | 0.21%<br>8.33% | 0.75%<br>6.48% |
| EDU/011 | Nifer cyfartalog y pwyntiau am gymwysterau allanol y mae disgyblion 16 oed yn eu hennill mewn sefydliadau dysgu wedi eu cynnal gan yr awdurdod lleol | 375.00 | 380.00 | 391.20 | 378.60 | 380.00 | 418.46 | 394.13 |
| EDU/015 | a) Canran y datganiadau terfynol am anghenion addysgol arbennig wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos, yn cynnwys eithriadau<br>b) Canran y datganiadau terfynol am anghenion addysgol arbennig wedi'u cyhoeddi o fewn 26 wythnos, ddim yn cynnwys eithriadau | 60.4%<br>91.4% | 60.0%<br>95.0% | 73.8%<br>100.0% | 74.0%<br>90.8% | 60.0%<br>95.0% | 86. 7%<br>100.0% | 76.3%<br>90.3% |
| SCA/001 | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed | 10.12 | 11.00 | 7.87 | 6.13 | 11.00 | 7.84 | 5.76 |
| SCA/002 | Cyfradd y bobl hŷn (65 oed a throsodd):<br>a) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd<br>b) Sy'n derbyn cymorth gan yr awdurdod lleol mewn cartrefi gofal, fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n 65 oed a throsodd | 115.73<br>29.89 | 88.62<br>29.00 | 107.64<br>28.47 | 86.69<br>21.75 | 89.00<br>29.00 | 60.47<br>26.72 | 81.40<br>21.75 |

| Cyf | Dangosydd | Canlyniad 08/09 | Targed 09/10 | Canlyniad 09/10 | Cyfartaledd Cymru 09/10 | Targed 10/11 | Canlyniad 10/11 | Cyfartaledd Cymru 10/11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, am resymau ar wahan i drefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | 47.7% | 20.0% | 22.8% | 13.1% | 20.0% | 19.5% | 14.2% |
| SCC/033 | a) Canran y bobl ifanc oedd cynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw pan yn 19 oed<br>b) Canran y bobl ifanc oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, y gwyddid eu bod mewn llety addas, nad yw'n lety brys pan yn 19 oed<br>c) Canran y bobl ifanc oedd arfer derbyn gofal ac mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac yn gwybod eu bod yn derbyn addysg, hyfforddiant neu sy'n gweithio pan yn 19 oed | 84.2%<br>87.5%<br>37.5% | 80.0%<br>90.0%<br>80.0% | 90.0%<br>77.8%<br>33.3% | 95.1%<br>92.7%<br>49.2% | 80.0%<br>90.0%<br>80.0% | 100.0%<br>88.2%<br>47.1% | 93.1%<br>90.8%<br>52.2% |
| SCC/037 | Y sgôr, ar gyfartaledd, o'r pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfer plant sy'n 16 oed ac yn derbyn gofal, mewn unrhyw osodiad dysgu sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol | 52.00 | - | 129.00 | 152.00 | - | 188.40 | 183.24 |
| HHA/013 | Canran y cartrefi digartref posibl lle'r ataliwyd digartrefedd am o leiaf 6 mis | 88.6% | - | 95.2% | 59.6% | - | 87.5% | 58.4% |
| PSR/002 | Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a wnaeth gymryd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 442.00 | 430.00 | 359.00 | 349.00 | 400.00 | 291.11 | 386.65 |
| PSR/004 | Canran yr anheddau yn y sector breifat a oedd wedi bod yn wag ers dros 6 mis ar 1 Ebrill a gafodd eu llenwi yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 2.04% | - | 2.54% | 3.14% | - | 4.74% | 4.34% |
| EEF/002 | Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladu cyhoeddus annomestig; | -4.82% | 4% yn is na'r waelodlin yn y Cynllun Rheoli Carbon | 3.75% | 2.19% | 10.00% | 4.06% | 5.37% |
| WMT/004 | Canran o wastraff trefol wedi ei ddanfon at dirlenwi | 63.09% | 55.00% | 56.89% | 55.75% | 51.00% | 54.03% | 50.88% |
| WMT/009 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | - | - | - | - | - | 43.97% | 43.63% |
| STS/006 | Canran yr achosion wedi eu cofnodi o dipio anghyfreithlon ar dir perthnasol sy'n cael ei glirio o fewn 5 diwrnod gwaith | 99.02% | 95.00% | 95.11% | 94.33% | 95.0%0 | 94.91% | 95.53% |
| THS/007 | Canran yr oedolion 60+ sydd â thocyn bws | 76.40% | - | 73.30% | 82.80% | - | 78.37% | 83.29% |

| Cyf | Dangosydd | Canlyniad 08/09 | Targed 09/10 | Canlyniad 09/10 | Cyfartaledd Cymru 09/10 | Targed 10/11 | Canlyniad 10/11 | Cyfartaledd Cymru 10/11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PLA/006 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd eu darparu yn ystod y flwyddyn | 27.00 | 20.00 | 5.00 | 23.00 | 20.00 | 41.42 | 25.30 |
| LCL/001 | Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, am bob 1,000 o'r boblogaeth | 3,974.00 | 3,939.00 | 3,750.00 | 5,906.00 | 3,664.00 | 5,072.22 | 6,040.99 |
| LCS/002 | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn, lle fydd yr ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, fesul 1,000 o'r boblogaeth | 14,341.00 | 14,341.00 | 13,597.00 | 8,626.00 | 12,644.00 | 12,439.94 | 8,523.52 |